

Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful

**Adolygiad o Gynnydd
yn erbyn Safonau Gofal
Iechyd Cymru –
1 Ebrill 2006 – 31 Mawrth
2007**

Hydref 2007

Cynnwys

	Rhif Tudalen
1. Cyflwyniad a Chyd-destun	1
2. Proses Asesu 2006-07	5
3. Trosolwg o Fwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful	9
4. Canfyddiadau	
▪ Profiad y Claf	11
▪ Canlyniadau Clinigol	23
▪ Llywodraethu Gofal Iechyd	27
▪ Iechyd y Cyhoedd	45
5. Y Camau Nesaf	49
 Atodiadau	
Atodiad 1: Diffiniadau o Lefelau Aeddfedrwydd	51
Atodiad 2: Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd yn ôl y Safon	53
Atodiad 3: Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl y Lefel Gorfforaethol, y Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr	61
Atodiad 4: Esboniad o'r Termau	63

1. Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau a ddeilliodd o'r gwaith a wnaed gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi ac i ddilysu hunanasesiad 2006-2007 Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful o'u perfformiad yn erbyn *Safonau Gofal Iechyd Cymru*.

Y Safonau

1.2. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Safonau Gofal Iechyd Cymru* ym mis Mai 2005 a daethant i rym ar 1 Mehefin 2005. Maent yn sefydlu fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd i gynorthwyo'r GIG a chyrrff sy'n bartneriaid i ddarparu gwasanaethau sy'n effeithiol, yn brydlon ac o ansawdd uchel ar draws yr holl sefydliadau gofal iechyd.

1.3. Gyntaf oll, a phwysicaf oll, bwriedir y Safonau Gofal Iechyd i sicrhau'r lefelau gwell o ofal a thriniaeth y mae gan bobl Cymru'r hawl resymol i'w disgwyl. Bydd hynny'n gosod sylfaen y gall sefydliadau gofal iechyd adeiladu arni a gwireddu'r disgwyliadau newydd a mwy heriol ar gyfer gofal i gleifion a nodwyd yn strategaeth ddeng mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, '*Cynllun Oes*'. Mae'n ofynnol i bob sefydliad gofal iechyd¹ yng Nghymru gymryd y safonau i ystyriaeth wrth ddarparu gofal iechyd a chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, beth bynnag fo'r cyd-destun.

1.4. Mae *Safonau Gofal Iechyd Cymru* yn nodi 32 o safonau o fewn pedwar maes. Mae pob maes yn deillio o werthoedd craidd a ddylai fod yn sail i gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal iechyd, ac mae pob safon o fewn maes yn disgrifio'r gwerthoedd y mae'r maes hwnnw'n eu cynrychioli.

- Mae'r maes cyntaf '*Profiad y Claf*' yn nodi:

¹ Diffinnir sefydliadau gofal iechyd fel cyrrff y GIG yng Nghymru, contractwyr annibynnol a sefydliadau ac unigolion eraill, yn cynnwys y sectorau annibynnol a gwirfoddol, sy'n darparu neu'n comisiynu gofal iechyd i gleifion unigol, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd.

Bydd y safonau i gefnogi'r broses o ddarparu gofal iechyd mewn partneriaeth â'r cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalgwyr a'u perthnasau yn seiliedig ar gynlluniau a phenderfyniadau sy'n parchu anghenion a dymuniadau amrywiol. Bydd y gwasanaethau'n hawdd eu defnyddio ac yn canolbwyntio ar y claf. Bydd gofal iechyd yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau sy'n hybu lles y cleifion a'r staff ac sy'n parchu anghenion a dymuniadau'r cleifion. Byddant wedi'u llunio i ddarparu triniaeth a gofal yn effeithiol a diogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw a'u glanhau'n dda er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd y cleifion.

- Mae'r ail faes 'Canlyniadau Clinigol' yn datgan:

Bydd y penderfyniadau a'r gwasanaethau gofal iechyd yn seiliedig ar dystiolaeth gwaith ymchwil a gaiff ei asesu'n briodol ac yn sicrhau canlyniad effeithiol ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth gan ystyried eu hanghenion a'u dymuniadau personol. Bydd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau mor gyflym â phosibl, ac ni fydd oedi afresymol yn digwydd ar unrhyw adeg yn ystod y broses ddarparu na'u llwybr gofal.

- Mae'r trydydd maes 'Llywodraethu Gofal Iechyd' yn ei gwneud yn eglur:

Bydd gan ddarparwyr a chomisiynwyr gofal iechyd systemau yn eu lle sy'n cefnogi arweiniad ac atebolrwydd staff clinigol a rheolwyr ac sy'n canolbwyntio ar anghenion a dymuniadau cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth. Bydd arferion gwaith yn eu lle i sicrhau bod uniondeb, sicrwydd ansawdd, dulliau gwella ansawdd a diogelwch y cleifion yn rhan annatod o'r holl arferion, prosesau a gweithgareddau.

- Mae'r pedwerydd maes 'Iechyd y Cyhoedd' yn datgan:

Bydd cyrff gofal iechyd yn cydweithredu â chyrff perthnasol eraill a chymunedau lleol i sicrhau bod y rhaglenni a'r gwasanaethau'n cael eu llunio a'u darparu i hyrwyddo, amddiffyn a gwella iechyd, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol.

Sicrhau Cydymffurfiad

1.5. Ers mis Ebrill 2007, mae'n ofynnol i sefydliadau gofal iechyd y GIG yng Nghymru gynnal hunanasesiadau yn erbyn y safonau gofal iechyd a gwneud datganiad cyhoeddus blynyddol ynghylch eu perfformiad.

1.6. Rhaid i'r cyrff gyflwyno eu datganiad a'u hunanasesiadau i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sy'n gyfrifol am arwain y gwaith o gydgyssylltu, profi a dilysu dychweliadau, gan ddefnyddio dadansoddiad sy'n seiliedig ar risg, yn erbyn amrywiaeth o ffynonellau data. Amlinellir y broses a fabwysiadwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi ac i ddilysu cyflwyniadau 2006-2007 yn yr adran nesaf.

1.7. O fis Ebrill 2008 ymlaen, bydd cydymffurfriad â'r safonau gofal iechyd yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu ar Ddatganiadau Rheolaeth Fewnol ac Adroddiadau Blynyddol sefydliadau.

2. Proses Asesu 2006-2007

Y broses hunanasesu

2.1. Bu 2006-2007 yn flwyddyn ddatblygiadol pryd y datblygwyd ac y profwyd proses newydd o asesu. Bu'r pwyslais ar ddatblygu proses asesu sy'n gosod y cyfrifoldeb am gydymffurfio â *Safonau Gofal Iechyd Cymru* yn bendant ar Fyrddau sefydliadau gofal iechyd ac sy'n ategu'r agenda llywodraethu. Mae'r broses yn un o'r camau allweddol tuag at sicrhau bod cyrff gofal iechyd yn atebol am safon y gwasanaethau maent yn eu darparu a hefyd bod cleifion a'r cyhoedd â gwell gwybodaeth ynghylch perfformiad eu darparwyr a chomisiynwyr gofal iechyd, ac yn fwy pwysig fyth, ynghylch y safonau y dylent eu disgwyl.

2.2. Mewn ymgynghoriad â chyrrff gofal iechyd a phartneriaid allweddol eraill, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi datblygu proses hunanasesu sy'n profi perfformiad yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd* ar dair lefel wahanol:

- *Corfforaethol* – pa mor dda y mae'r Byrddau'n gwneud eu gwaith mewn perthynas â sicrhau cydymffurfio â'r Safonau?
- *Canlyniadau Gweithredol/Clinigol* – sut y sicreir cydymffurfio â'r Safonau ar lefel y gwasanaeth/ward?
- *Profiad y Defnyddiwr*² – sut brofiad a gaiff y defnyddiwr ac a ydyw yn gwella?

2.3. Gosodwyd meini prawf a chwestiynau asesu ar gyfer pob safon a'u datblygu i fod yn becyn asesu ar y we sy'n caniatáu cwblhau hunanasesiadau ar lein a lanlwytho tystiolaeth ddogfennol i ategu'r atebion i bob cwestiwn. Cynhwysir canllawiau gyda'r cwestiynau, sy'n cynnig cyngor defnyddiol ynghylch gofynion pob un o'r 32 safon.

2.4. Gofynnwyd i gyrff asesu eu cynnydd o ran darparu'r lefel uchaf o berfformiad yn unol â phob un o'r 32 safon gan ddefnyddio matrices aeddfedrwydd. Mae'r matrices aeddfedrwydd yn caniatáu asesu perfformiad ar y lefel gorfforaethol, y lefel weithredol a lefel profiad y defnyddiwr gan ei osod ar un o bum lefel o aeddfedrwydd:

² Yng nghyd-destun y broses asesu Safonau Gofal Iechyd, defnyddir y 'defnyddiwr' i olygu cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, gofaluwr a staff.

- Ymwybodol
- Ymatebol
- Datblygol
- Gweithredol
- Arweiniol

Ceir diffiniad o bob un o'r lefelau o aeddfedrwydd hyn yn Atodiad 1.

2.5. Gan fod hon yn flwyddyn ddatblygiadol, bu'n rhaid i sefydliadau'r GIG gadw at rai terfynau amser tyn ac roedd yn ofynnol iddynt gwblhau a chyflwyno'u hunanasesiadau i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru erbyn 30 Mehefin 2007, sef tri mis ar ôl cyhoeddi'r pecyn asesu. Cyflwynodd Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful yr hunanasesiad mewn pryd a hoffem gydnabod yr holl waith, ymdrech ac ymroddiad a ddangoswyd gan y Bwrdd i sicrhau cadw at yr amserlen.

Profi a Dilysu

2.6. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi profi a dilysu cyflwyniad hunanasesu Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful, ac roedd hyn yn cynnwys nifer o gamau:

- *Cam 1* - Dilysu pen bwrdd o'r hunanasesiad gan dîm o adolygwyr cymheiriaid a lleyg. Roedd y cam hwn yn cynnwys gwirio a atebwyd y cwestiynau yn ategu pob maen prawf yn briodol, profi a oedd yna ddigon o dystiolaeth berthnasol i gyfiawnhau'r ateb a gwerthuso a oedd yr ateb yn cyd-fynd a'r sgôr aeddfedrwydd a ddyfarnwyd gan y corff.
- *Cam 2* – Cynhaliwyd cyfarfodydd cymedroli drwy fis Awst i gymharu ac i gyferbynnu'r atebion a'r marciau aeddfedrwydd fesul sefydliad a fesul safon. Roedd y cam hwn yn y broses yn allweddol ar gyfer sicrhau cysondeb y sgoriau a'u safoni.
- *Cam 3* – Ymweliadau safle i'r cyrff i wirio agweddau pwysig ar brofiad y claf/defnyddiwr.

Yr Ymweliad Safle

2.7. Yr ymweliad safle oedd un cam o'r broses o ddilysu a phrofi hunanasesiad Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful ac, fel y nodwyd uchod, fe ganolbwyntiodd ar brofi'r agweddau allweddol ar brofiad y defnyddiwr. Cynhaliwyd yr ymweliad ar 4 Medi 2007 a buom yn hwyluso grwpiau ffocws cleifion a staff.

2.8. Yn ogystal, cynhaliwyd hyfforddiant a phrofion arfarnu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer yr holl staff ar ddydd yr ymweliad. Gellir gweld rhaglen waith fanwl ar gyfer yr ymweliadau hyn ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn www.hiw.org.uk.

Uwchgynadleddau Gofal Iechyd

2.9. Ym mis Awst cydgyssylltodd a hwylusodd yr Arolygiaeth dri chyfarfod rhanbarthol, 'Uwchgynadleddau Gofal Iechyd', gan ddod â chyrrff adolygu a chyrrff archwilio ynghyd fel y gellid rhannu data a gwybodaeth a'u bwydo i mewn i'r broses o gadarnhau'r asesiadau Safonau Gofal Iechyd. Mae'r Uwchgynadleddau hyn yn gam allweddol wrth symud tuag at rannu mwy o wybodaeth ledled sefydliadau adolygu a datblygu cynlluniau archwilio a sicrhau ar y cyd.

3. Trosolwg o Fwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful

3.1. Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful fel corff statudol ar 1 Ebrill 2003. Mae'r Bwrdd yn gwasanaethu tua 60,000 o bobl sy'n byw o fewn Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

3.2. Prif ddiben Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful yw cynllunio a chomisiynu ystod o wasanaethau gofal iechyd ar gyfer poblogaeth Merthyr Tudful. Yn benodol, swyddogaeth y Bwrdd yw:

- gwella iechyd a lles pobl Merthyr Tudful, a lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd;
- gweithio mewn partneriaeth gyda phobl leol, cleifion, grwpiau cymunedol a gwirfoddol ac asiantaethau eraill i sicrhau bod gofal iechyd a gofal cymdeithasol hygyrch o ansawdd da ar gael i ddiwallu anghenion y gymuned;
- arolygu darparu gwasanaethau gofal sylfaenol megis y rhai a ddarperir gan feddygon teulu a deintyddion;
- sicrhau bod yr ystod gyfan o wasanaethau mewn ysbytai ar gael i bobl leol.

4. Canfyddiadau – yn cynnwys Meysydd lle bu Gwella ac Arfer Da

4.1 Profiad y Claf

Safon 1

Ymgynghorir â'r cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd wrth lunio, cynllunio, darparu, adolygu a gwella'r gwasanaethau gofal iechyd ac wrth eu hintegreiddio â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

S1.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol, y Lefel Ymarferol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S1.2. Yn erbyn y safon hon, roedd y Bwrdd yn gallu dangos tystiolaeth o sut mae wedi ymrwymo i geisio ac i gynnwys barn y cleifion a'r cyhoedd drwy Strategaeth Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd a'r Cynllun Gweithredu Tair Blynedd a ddeilliodd o hynny. Mae'r Bwrdd hefyd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith hwn, gydag un o'i aelodau yn arwain gyda threfnu cyfres o fforymau cyhoeddus chwarterol ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

S1.3. Mae mentrau fel Fforwm Merthyr a phrosesau ymgynghori a drefnir gan y Bwrdd Iechyd Lleol yn dangos sut mae'r Bwrdd yn cymryd camau i ddarparu cyfleoedd i gleifion, y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau i gynnig adborth ynghylch eu profiadau ac ansawdd y gwasanaethau.

S1.4. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cytuno ag asesiad y Bwrdd Iechyd Lleol ei fod yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol a Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ond mae'n barnu mai **Ymatebol** yw'r asesiad priodol ar Lefel Profiad y Defnyddiwr. Roeddem o'r farn nad oedd y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Bwrdd yn dangos yn eglur sut y byddid yn gweithredu o ganlyniad i sylwadau gan gleifion, y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau nac ychwaith y newidiadau a allai fod wedi digwydd o ganlyniad. Roedd rhai o'r enghreifftiau a gynigwyd hefyd yn canolbwyntio i raddau helaeth iawn ar lechyd y Cyhoedd. Yn ystod yr ymweliad safle, codwyd cwestiynau hefyd ynglŷn â chyfarfodydd Fforwm y Bwrdd Iechyd Lleol, gyda phobl yn teimlo eu bod yn cael eu hannerch yn hytrach na chael y cyfle i

gyfathrebu o ddifrif ac y gellid gwella ymhellach ar y cylch adborth rhwng y Bwrdd a'r gymuned mae'n ei gwasanaethu.

Safon 2

Bydd y gwaith o gynllunio a darparu gofal iechyd:

- a. yn cyd-fynd â phrofiadau, safbwyntiau a dymuniadau'r cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth;*
- b. yn bodloni anghenion iechyd y boblogaeth a wasanaethir;*
- c. yn seiliedig ar dystiolaeth ac arferion gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;*
- ch. yn sicrhau bod pawb yn cael yr un mynediad at wasanaethau.*

S2.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol, Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S2.2. Roedd y Bwrdd yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Y Cynllun Gwasanaeth a Chomisiynu Blynyddol sy'n nodi sut y bydd y Bwrdd yn gweithio gyda phartneriaid i fodloni'r blaenoriaethau, y targedau a'r safonau cenedlaethol yn ogystal ag i adlewyrchu blaenoriaethau lleol, yn cynnwys y rheini a amlygwyd drwy'r broses cynllunio ar y cyd.
- Y Cynllun Corfforaethol.
- Dogfennaeth y Fframwaith Canlyniadau Ansawdd.
- Gwybodaeth Cynllunio Amlinellol Strategol.
- Y Cerdyn Sgorio Cytbwys ac Adroddiadau Perfformiad.
- Cofnodion pwyllgorau, er enghraifft: Y Bwrdd, y Grŵp Rheoli Prosiectau, Asesiadau Unedig, Asesiadau Unedig, Grŵp Partneriaeth Pwysau Brys.
- Cynlluniau Archwilio.
- Taflen Wybodaeth Cleifion Arbenigol.
- Gwybodaeth ac adroddiad y Prosiect Anghydraddoldebau Iechyd.

S2.3. Cytunwn ag asesiad y Bwrdd Iechyd Lleol ei fod yn **Ddatblygol** ledled y safon hon a nodasom hefyd yn ystod yr ymweliad safle bod y staff yn ymwybodol iawn o'r canllawiau cenedlaethol sydd ar gael. Fodd bynnag, efallai bydd y Bwrdd am nodi bod y dystiolaeth yn wannach mewn perthynas â'r camau a'r systemau a ddefnyddir

i sicrhau bod cleifion yn cael gwybod am amseroedd aros a'r dewisiadau sydd ar gael iddynt ac ynghylch sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau a bod angen cymryd camau pellach i fynd i'r afael â'r agweddau hyn.

Safon 3

Dylai cleifion sydd ag anghenion iechyd brys gael mynediad at ofal priodol yn brydlon ac o fewn terfynau amser cenedlaethol a gaiff eu pennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

S3.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ymarferol** ar y Lefel Gorfforaethol a Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinical ac yn **Ddatblygol** ar Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S3.2. Dangosodd y Bwrdd ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy wneud y canlynol:

- Monitro bod y ddarpariaeth y tu allan i oriau arferol yn cydymffurfio â'r Safon drwy'r Pwyllgor Datblygu Gofal Sylfaenol a Bwrdd Perfformiad Gofal heb ei Drefnu. Ychydig iawn o dystiolaeth oedd yna, fodd bynnag, i gadarnhau hyn.
- Monitro Amseroedd Aros Damweiniau ac Achosion Brys drwy'r system cerdyn sgorio cytbwys.

S3.3. Nid oedd yn eglur o ymateb y Bwrdd pa broses sydd wedi'i sefydlu ar gyfer sicrhau bod y gan y staff y wybodaeth ddiweddaraf yng nghylch eu perfformiad yn erbyn targedau achosion brys cenedlaethol ac ni chyflwynwyd tystiolaeth ynghylch lefelau perfformiad yn erbyn amseroedd aros damweiniau ac achosion brys. Roedd y Bwrdd yn cydnabod, fodd bynnag, bod Ymddiriedolaeth Gogledd Morgannwg wedi'i chael yn anodd cyrraedd y targedau amseroedd aros ar gyfer damweiniau ac achosion brys.

S3.4. Wrth arolygu'r dystiolaeth, teimlem mai ychydig oedd yna i gadarnhau neu ategu rhai o'r datganiadau, er enghraifft, ynghylch monitro cydymffurfio, ac yng ngoleuni hynny, barnwn fod y Bwrdd Iechyd Lleol yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol ac yn **Ymatebol** ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr fel ei gilydd.

Safon 4

Caiff gofal iechyd ei ddarparu mewn lleoliadau priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda sydd:

- a. yn hybu lles y cleifion a'r staff;
- b. yn parhau anghenion gwahanol gleifion, eu preifatrwydd a chyfrinachedd;
- c. yn ystyried diogelwch y cleifion, y defnyddwyr a'r staff;
- ch. yn darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn y cleifion, y staff, yr ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y sefydliad.

S4.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol, Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S4.2. Llwyddodd y Bwrdd i ddangos sut mae'n cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Y Strategaeth Gofal Sylfaenol ac Ystadau.
- Penodi Hyrwyddwr Dylunio i hybu lleoliadau sydd wedi'u dylunio'n dda ac yn groesawgar i gleifion.
- Fframweithiau Sicrwydd ar gyfer Fferyllfeydd Cymunedol a Phractisau Deintyddol.
- Gwasanaeth Adolygu'r Defnydd o Feddyginiaethau.
- Contract Safonol ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol.
- Pecynnau Archwilio Digwyddiadau Mawr ar gyfer Deintyddion a Meddygon Teulu.
- Gwybodaeth Hyfforddiant Dadansoddiad o Wraidd y Broblem.
- Polisi a Gweithdrefnau Cwyno.
- Adroddiad Ymgynghorol Holiadur Asesu Practisau Meddygon Teulu.
- Cofnod Digwyddiadau Clinigol.

S4.3. Er bod y Bwrdd Iechyd Lleol wedi dangos bod yna bolisiâu a gweithdrefnau wedi'u sefydlu i osod sylfaen ar gyfer cynllunio a datblygu lleoliadau gofal iechyd i'r dyfodol, mae yna brinder o fanylion a thystiolaeth ynghylch sut mae'r Bwrdd yn monitro cynnydd neu sut y deuir â materion o bwys i'w sylw ac y gweithredir arnynt. Nid yw'r trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfio â'r holl ofynion statudol megis Deddf Hawliau Dynol, y Ddyletswydd Cydraddoldeb Hiliol a'r Ddyletswydd

Cydraddoldeb Rhywiol yn eglur ychwaith. Mae angen ystyried hefyd ffyrdd ychwanegol o alluogi staff, cleifion a defnyddwyr gwasanaethau i ddylanwadu ar gynllunio a datblygu lleoliadau gofal iechyd.

S4.4. Bydd y Bwrdd hefyd am nodi iddi ddod i'r amlwg yn ystod y grŵp ffocws cleifion bod cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn teimlo bod safleoedd yr Ymddiriedolaeth a safleoedd gofal sylfaenol yn yr ardal mewn cyflwr gwael.

S4.5. I grynhoi, ar sail yr ymatebion a roddwyd a'r dystiolaeth ledled y safon hon, barnwn fod y Bwrdd Iechyd Lleol yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol ac yn **Ymatebol** ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 5

Mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn lleoliadau sydd

- a. yn cael eu cynnal a'u cadw at safonau glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol;*
- b. yn gostwng y perygl i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal heintiau cysylltiedig â gofal iechyd, gan leihau nifer yr achosion o flwyddyn i flwyddyn;*
- c. yn pwysleisio safonau uchel o ran hylendid ac yn cydymffurfio â mentrau i annog arferion gorau.*

S5.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol, Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S5.2. Nododd y Bwrdd ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Y Strategaeth Gofal Sylfaenol.
- Contract Safonol ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol.
- Gwybodaeth Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol Ychwanegol.
- Polisiâu ynglŷn ag Arllwysladau Gwaed a Hylifau Corfforol ac Anafiadau Blaen Nodwydd a Gwrthrychau Miniog.
- Cymalau ar gyfer Cytundebau Deintyddol Personol.
- Gofynion Contractiol a Statudol.
- Adroddiad Rheoli Haint 2005.

- Achredu Gwasanaethau Llawdriniaethau Bach 2006-2007.
- Polisi Cwyno.

S5.3. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd Lleol nodi nad oedd yn eglur o'r ymateb a'r dystiolaeth a gyflwynwyd ledled y safon hon:

- Bod y Bwrdd yn sicr bod lleoliadau gofal iechyd yn cael eu cynnal a'u cadw'n effeithiol. Nid yw'r awgrym o ddibynnu ar y Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, er enghraifft, yn ddigonol.
- Sut mae monitro'n digwydd.
- Beth yn union yw'r trefniadau ar gyfer adrodd wrth y Bwrdd. Ymddengys bod y Bwrdd yn gweithio mewn ffordd fwy adweithiol na rhagweithiol.
- Beth sydd yn digwydd mewn Gofal Eilaidd.

Yn ogystal, ymddengys na chafodd yr Adroddiad Rheoli Haint ei ddiweddarau ers 2005.

S5.4. Ni allwn felly gytuno ag asesiad y Bwrdd Iechyd Lleol ei fod yn **Ddatblygol** ledled y safon hon, ond barnwn fod y Bwrdd yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol, yn **Ymatebol** ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymwybodol** ar Lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 6

Mae cyrff gofal iechyd, wrth gydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol:

- yn sicrhau bod gwybodaeth am eu gwasanaethau o fewn cyrraedd y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd;*
- yn rhoi gwybodaeth yn brydlon i gleifion a defnyddwyr y gwasanaeth am eu cyflwr; y gofal a'r driniaeth y byddant yn eu cael yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer darparu ôl-ofal a chymorth;*
- yn rhoi cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr y gwasanaeth i drafod a chytuno ar opsiynau'n ymwneud â'u gofal.*

S6.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol, Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S6.2. Llwyddodd y Bwrdd i ddangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â mater darparu gwybodaeth gan gydnabod gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol drwy'r canlynol:

- Ei gynlluniau cydraddoldeb megis ei gynlluniau ar gyfer Cydraddoldeb Hiliol a Gwahaniaethu ar sail Oed, ei Bolisi Cydraddoldeb a'i Bolisi Iaith Gymraeg.
- Llinell iaith.
- Bod Cynllun Cyhoeddi'r Bwrdd ar gael drwy'r Rhynggrwyd.
- Tafleuni a gynhyrchwyd gan y proffesiynau sy'n contractio.
- Gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion a chanmoliaeth.

S6.3. Er ein bod yn gallu cadarnhau asesiad y Bwrdd Iechyd Lleol ei fod yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol, mae ein hadolygiad o'r dystiolaeth ar gyfer Canlyniadau Gweithredol/Clinigol yn awgrymu mai **Ymatebol** yw'r Bwrdd ar y Lefel honno. Mae angen i'r Bwrdd ymdrin â phob rhan o'r cwestiwn i sicrhau bod y dulliau gweithredu a'r systemau sydd wedi'u sefydlu yn dangos yn amlwg yn y dystiolaeth. Eto, ar Lefel Profiad y Defnyddiwr, ni ellid barnu o'r dystiolaeth bod yr holl brosesau a gweithdrefnau priodol wedi'u sefydlu, naill ai i ddefnyddwyr gwasanaethau gael mynediad i'r wybodaeth y mae arnynt ei hangen nac i'w galluogi i drafod dewisiadau yn ymwneud â'u gofal os oes ganddynt anghenion amrywiol ac i gytuno ar y dewisiadau hynny. Roedd y dulliau monitro ar gyfer y rhain hefyd yn wan. Yn ogystal, ni nodwyd ychwaith brosesau ar gyfer rheoli a datrys sefyllfaedd pan fo dewisiadau cleifion yn anghytuno â barn broffesiynol y staff. Barnwn felly fod y Bwrdd Iechyd Lleol yn **Ymwybodol** ar Lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 7

Mae'r cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth, gan gynnwys pobl ag afiechydon hirdymor, yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal eu hunain ac yn cael cyfleoedd ac adnoddau i ddysgu sut i ofalu amdanynt eu hunain.

S7.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol a Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymarferol** ar Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S7.2. Roedd y Bwrdd yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy wneud y canlynol:

- Datblygu'r Strategaeth Rheoli Clefydau Cronig i sicrhau bod y cleifion a defnyddwyr y gwasanaethau yn cael eu galluogi i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch eu gofal a'u triniaeth.
- Gweithio gyda gwahanol asiantaethau i gytuno ar lwybrau gofal integredig ar gyfer nifer o glefydau cronig, er enghraifft, Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint, Clefyd Coronaidd y Galon ac Iselder.
- Cymryd rhan mewn rhaglenni megis Heart Link a'r Rhaglen Cleifion Arbenigol. Rhaglen yw Heart Link sy'n cymryd cyfyngiadau cymdeithasol, corfforol ac economaidd i ystyriaeth er mwyn darparu gwasanaethau sy'n hygyrch, yn fforddiadwy ac yn gefnogol. Anogir cleifion i gyrraedd eu potensial cyflawn drwy gyfnewid ysgogiadol, gwybodaeth reolaidd a phriodol ac amrywiaeth eang o ddewisiadau i gamu ymlaen yn synhwyrol, yn realistig ac yn gyson dros gyfnod synhwyrol (12 mis). Bwriadwyd y Rhaglen Cleifion Arbenigol i ddysgu sgiliau gwerthfawr ac mae'n edrych ar ffyrdd o wella sut mae person yn ymdrin ag effeithiau eu cyflwr iechyd hirdymor. Dros gyfnod o chwe wythnos, bydd tiwtor yn dysgu'r claf sut i ymdrin â materion megis straen/pryder, rheoli poen, hunanddelwedd wael a bwyta'n rheolaidd ac yn iach. Mae cefnogaeth a chymorth hefyd ar gael i bobl drwy gydol y rhaglen. Rheolir perfformiad y rhaglenni hyn yn y dyfodol drwy'r Cerdyn Sgorio Cytbwys a bydd yn cynnwys pethau fel Dangosyddion Digwyddiadau (cynhyrchu deunyddiau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau); Dangosyddion Proses (sefydlu trefniadau adborth effeithiol) a Dangosyddion Canlyniadau.

S7.3. Cytunwn ag asesiad y Bwrdd Iechyd Lleol ohono'i hun ei fod yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol a Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a barnwn ei fod hefyd yn **Ddatblygol** ar Lefel Profiad y Defnyddiwr. Er bod yr ymateb yn un cryf gyda rhai elfennau'n dangos eu bod ar y ffordd i fod yn Ymarferol, ni ellid cadarnhau, ar hyn o bryd, bod profiad unigolion yn gyffredinol dda ar draws bob maes.

Safon 8

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod y staff yn trin y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr ag urddas a pharch;*
- b. bod y staff eu hunain yn cael eu trin ag urddas a pharch waeth beth fo'r gwahaniaethau rhyngddynt;*
- c. yr eir ati'n briodol i gael caniatâd cyn cysylltu â chleifion a defnyddwyr y gwasanaeth a chyn defnyddio gwybodaeth gyfrinachol am gleifion;*
- ch. bod unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrin yn gyfrinachol, ac eithrio pan fo deddfwriaeth yn caniatáu ei defnyddio.*

S8.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ymarferol** ar y Lefel Gorfforaethol ac yn **Ddatblygol** ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S8.2. Roedd y Bwrdd yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Polisiâu yn ymwneud â Bod yn Agored; Cwyno; Urddas yn y Gweithle; Cydraddoldeb; Gweithio Hyblyg; Cydraddoldeb Hiliol; Absenoldeb Arbennig; Lles yn y Gweithle a'r Iaith Gymraeg.
- Hyrwyddwyr y Bwrdd ar gyfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Chwythu'r Chwiban/Pryderon Staff. Mae Hyrwyddwr Amrywiaeth y Bwrdd Iechyd Lleol yn cydweithio'n agos â'r Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol i sicrhau y codir materion o bryder a bod y Bwrdd yn gweithredu ynglŷn â'r materion hynny.
- Datblygu Polisi Caniatâd ar sail Gwybodaeth yn seiliedig ar y canllawiau diweddaraf ynghylch yr arferion gorau, rheoleiddio proffesiynol a chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru (a oedd yn bennaf ar gyfer gofal eilaidd). Mae'r polisi hefyd yn cynnwys cyfeiriad at y Ddeddf Galluedd Meddyliol a bydd y Bwrdd yn adolygu'r ddogfen yn 2007 yng ngoleuni canllawiau newydd mewn perthynas â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.
- Adroddiad Blynyddol i'r Bwrdd ar gydymffurfio â'r holl bolisiâu sy'n gweithredu.
- Gweithdrefnau ar gyfer Rheoli Cofnodion; Strategaeth Rheoli Cofnodion a Pholisi Diogelu Gwybodaeth.
- Cynllun Gweithredu Caldicott.

- Gweithgor Cwynion a Chanmoliaeth; Asesiad Risg a Chynllun Gweithredu.
- Polisi Cofnodi Digwyddiadau Clinigol.

S8.3. Cytunwn ag asesiad y Bwrdd Iechyd Lleol ei fod yn **Ymarferol** ar y Lefel Gorfforaethol ac yn **Ddatblygol** ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 9

Lle bydd bwyd yn cael ei ddarparu bydd systemau ar waith i sicrhau:

- a. bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n sicrhau deiet gytbwys;*
- b. bod gofynion personol, diwylliannol a chlinigol y cleifion o ran deiet yn cael eu bodloni, gan roi unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta, a sicrhau bod ganddynt fynediad at fwyd 24 awr y dydd.*

S9.1 Fel y gwnaeth y mwyafrif o Fyrddau Iechyd Lleol, nododd ymateb Merthyr Tudful mai i sefydliadau a oedd yn ddarparwyr yn unig yr oedd y safon hon yn berthnasol. Fel Arolygiaeth Gofal Iechyd, mae ymateb o'r fath yn peri pryder i ni achos fe ddylai comisiynwyr fod yn sicrhau bod gan ddarparwyr o bob math y systemau a'r prosesau wedi'u sefydlu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safon hon. Dylai Byrddau Iechyd Lleol fod yn monitro hyn fel rhan o'u cyfrifoldebau comisiynu. Bydd cyngor pellach ynghylch swyddogaeth Byrddau Iechyd Lleol mewn sicrhau cydymffurfio â'r safon hon yn cael eu cyhoeddi mewn pryd ar gyfer cyflwyniad y flwyddyn nesaf.

Safon 10

Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau nad yw pobl sy'n cael gofal iechyd yn destun unrhyw wahaniaethu ar sail oed, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd, na thueddfryd rhywiol.

S10.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol, Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S10.2. Roedd y Bwrdd yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Polisi Cymru Gyfan ar Wahaniaethu ar sail Oed a Gweithio Estynedig.

- Polisi a Gweithdrefn Cymru Gyfan ar Famolaeth, Tadolaeth a Mabwysiadu 2006.
- Polisi Urddas yn y Gweithle.
- Polisi Cydraddoldeb.
- Darparu Llinell Iaith sydd ar gael i bob Contractwr Gofal Sylfaenol.
- Cynllun Iaith Gymraeg.
- Siarter Practisau Meddygon Teulu.
- Adroddiad Ymgynghorol Holiadur Asesu Practisau Meddygon Teulu 2006.
- Taflenni Gwybodaeth Cleifion.

S10.3 Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi cydnabod bod y broses o gyflawni asesiadau o effaith ei bolisiâu ar gydraddoldeb wedi bod yn araf. Cytunwn fod y Bwrdd yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol er bod mecanwaith y Bwrdd i gadarnhau hynny yn wan. Ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, barnwn mai yn **Ymwybodol** yn unig y mae'r Bwrdd o ganlyniad i'r ffaith nad yw'r dystiolaeth yn cynnwys y manylion ynghylch hyfforddiant ar gyfer y staff . Ar Lefel Profiad y Defnyddiwr, credwn fod y Bwrdd Iechyd Lleol yn **Ymatebol**. Roedd yr enghraifft a ddarparwyd yn ymwneud â Meddygfeydd Rhwydwaith Bach yn ateb y cwestiwn i ryw raddau ond nid oedd yn eglur sut mae'r fenter hon yn diwallu anghenion grwpiau ac unigolion penodol.

4.2 Canlyniadau Clinigol

Safon 11

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod triniaethau a gofal clinigol yn cael eu darparu gan bobl broffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar sail tystiolaeth;
- b. y caiff gofal clinigol a thriniaethau eu cynnal o dan oruchwyliaeth ac arweiniad staff clinigol;
- c. bod clinigwyr yn parhau i ddiweddarau eu sgiliau a'r technegau sy'n berthnasol i'w gwaith, gan gynnwys adolygiadau cymheiriaid;
- ch. bod clinigwyr yn archwilio ac yn adolygu'r gwasanaethau clinigol yn rheolaidd.

S11.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ddatblygol** ar draws y Lefel Gorfforaethol a Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S11.2. Roedd y Bwrdd yn gallu dangos bod triniaethau gofal clinigol yn cael eu darparu gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol yn seiliedig ar arfer ar sail tystiolaeth drwy'r canlynol:

- Datblygu Strategaeth Archwilio Clinigol ac Effeithiolrwydd a sefydlu Polisi Rheoli Risg a Fframwaith Strategol. Mae'r polisiau hyn yn amlinellu cyfeiriad y Bwrdd Iechyd Lleol i'r dyfodol gyda golwg ar sicrhau darparu triniaethau a gofal clinigol ar sail y dystiolaeth orau.
- Pwyllgorau megis: y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol, sy'n penderfynu ar flaenoriaethau mewn perthynas â galwadau a gofynion a allai gystadlu â'i gilydd; mae Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan yn cynghori'r Bwrdd ar sail tystiolaeth ynghylch materion megis presgripsiynu; mae gan y Grŵp Gweithredol Llywodraethu Clinigol swyddogaeth monitro ac mae'n derbyn adroddiadau ynghylch archwilio. Maent hefyd yn sicrhau lledaenu cyngor y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol .
- Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gweithio fel rhan o Brosiect Llwybrau Gofal ehangach mewn perthynas â chyflyrau cronig megis Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint er mwyn sicrhau y darperir gofal ar sail y dystiolaeth a'r safonau clinigol gorau sydd ar gael.
- Strategaeth Datblygu Sefydliadol a Hyfforddiant.

- Mae trefniadau wedi'u gwneud ar gyfer Cynlluniau Datblygu Personol, Trefn Werthuso ar gyfer Aelodau'r Bwrdd a holl staff y Bwrdd Iechyd Lleol, Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth, Adolygiad gan Gymheiriaid ar gyfer Deintyddion a Gwerthuso Blynyddol ar gyfer Meddygon Teulu, rheoleiddio proffesiynol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a chyfarfodydd un wrth un.

S11.3. Er bod y Bwrdd Iechyd Lleol wedi dangos ei fod wedi sefydlu amrywiaeth o drefniadau mae wedi cydnabod bod angen iddo ffurfioli ei drefniadau presennol mewn perthynas ag arolygu clinigol ar gyfer staff gan mai ar sail fwy anffurfiol y mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Cytunwn ag asesiad y Bwrdd ei fod yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol a Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar Lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 12

Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael triniaeth a gofal effeithiol sydd:

- a. yn cydymffurfio ag arfarniadau technegol a gweithdrefnau ymyrryd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE), ac argymhellion Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG);*
- b. yn seiliedig ar ganllawiau ac arferion da y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, fel y'u diffiniwyd yn Fframweithiau'r Gwasanaeth Cenedlaethol, canllawiau clinigol NICE, y cynlluniau cenedlaethol a'r canllawiau ar ddarparu gwasanaethau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;*
- c. yn ystyried anghenion a dymuniadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol y cleifion;*
- ch. yn integredig er mwyn darparu un gwasanaeth ar gyfer yr holl gyrff sydd i'w cynnwys, gan gynnwys cyrff gofal cymdeithasol.*

S12.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol a Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S12.2. Dangosodd y Bwrdd ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy drefniadau megis:

- Llinell Iaith i sicrhau bod cleifion nad ydynt yn siarad Saesneg yn gallu cael mynediad at wasanaethau; Gwasanaethau Gwell a Chyfeiriedig, sef cynllun sy'n annog practisau i gymryd rhan er mwyn gwella ansawdd data a gwybodaeth i

gleifion ynghylch gwasanaethau'r practis; y Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth; ac mae'r Bwrdd Iechyd Lleol hefyd yn cynorthwyo gyda chyflwyno'r Rhaglen Cleifion Arbenigol.

- Gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu a gweithredu llwybrau gofal integredig ar gyfer cyflyrau cronig megis clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, clefyd coronaidd y galon ac iselder. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynorthwyo gyda datblygu llwybrau gofal mewn meysydd megis diabetes ar ôl nodi bylchau yn y gwasanaeth, oedi a materion eraill sy'n effeithio ar y gwasanaeth ar hyn o bryd.
- Cefnogi staff drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus, cynlluniau datblygu personol, digwyddiadau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth a thafleuni.

S12.3. Cytunwn fod y Bwrdd Iechyd Lleol yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol ac yn **Ymatebol** ar Lefel Profiad y Defnyddiwr. Fodd bynnag, barnwn mai **Ymatebol** yw'r Bwrdd ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Er bod y Bwrdd yn cydnabod y prif faterion y mae'n rhaid ymdrin â hwy ac yn nodi ystod o ddewisiadau, nid yw'n eglur ar hyn o bryd o'r dystiolaeth bod yna weithredu ymarferol ynglŷn â'r materion hyn ledled y sefydliad.

Safon 13

Bydd gan gyrff gofal iechyd, sydd naill ai'n arwain neu'n cyfrannu at waith ymchwil, systemau i sicrhau bod egwyddorion a gofynion y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael eu cymhwyso'n gyson.

S13.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol a Lefel Profiad y Defnyddiwr ac yn **Ymarferol** ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S13.2. Dangosodd y Bwrdd ei fod yn cyfranogi mewn ymchwil drwy ei strwythur llywodraethu clinigol sy'n cynnwys:

- Meddyg teulu dynodedig sydd â diddordeb arbennig yn y pwnc, sy'n arwain gydag Ymchwil a Datblygu ac sydd hefyd yn cynnig cymorth i ymchwilwyr yn ôl y gofyn.
- Grŵp Gweithredol Llywodraethu Clinigol sy'n cynnwys cynrychiolwyr oddi wrth yr holl gontractwyr annibynnol a chynrychiolwyr cleifion a'r cyhoedd. Mae'r

Grŵp yn craffu ar bob cynllun ymchwil i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Polisi Llywodraethu Ymchwil y Bwrdd ac yn monitro'r prosiectau drwy dderbyn diweddariadau a thrwy'r adroddiad terfynol ynghylch y canfyddiadau. Ymhlith ei swyddogaethau eraill mae bod yn gyfrifol am ledaenu canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol a sicrhau cyfranogiad yng Ngrwpiau Llywio Gweithredu Ymddiriedolaeth Gogledd Morgannwg ar gyfer y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

- Datblygu Strategaeth Archwilio Clinigol ac Effeithiolrwydd.

S13.3. Mae'r Grŵp Gweithredol Llywodraethu Clinigol hwn yn nodi gwersi a ddysgwyd, meysydd lle gellir gwella a'r manau lle na weithredwyd yn briodol o ganlyniad i ymchwil ar sail tystiolaeth.

S13.4 O ganlyniad i Archwiliad Sbirometreg (mesur llif a chyfaint anadlu, sydd â rhan allweddol yn niagnosis ac asesu Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint) a gyflawnwyd gan Ofal Sylfaenol, cynhyrchwyd 'Canllaw Arfer Gorau' ar gyfer Nyrsys Practis i wella gofal i gleifion.

S13.5 Barnwn fod y Bwrdd Iechyd Lleol yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol a Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol fel ei gilydd. Ni allwn gadarnhau lefel aeddfedrwydd **Gweithredol** ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol oherwydd diffyg tystiolaeth i ddangos bod yna welliant parhaus sylweddol yn digwydd ledled y sefydliad. Ar Lefel Profiad y Defnyddiwr, teimlwn fod y Bwrdd yn **Ymatebol**, ond yn anffodus, nid oedd yr enghraifft a roddwyd yn cwmpasu nac yn dangos yn eglur sut y bu i'r fframwaith llywodraethu ymchwil effeithio'n uniongyrchol ar y gofal i gleifion.

4.3. Llywodraethu Gofal Iechyd

Safon 14

Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella'r holl agweddau ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch a iechyd y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn parhau'r ddeddfwriaeth, ond hefyd yn defnyddio arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.

S14.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ddatblygol** ar draws y Lefel Gorfforaethol, Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S14.2. Dangosodd y Bwrdd ei fod yn cyrraedd y safon hon drwy'r canlynol:

- Arweinydd dynodedig ar gyfer Iechyd a Diogelwch.
- Polisi Iechyd a Diogelwch.
- Rhoi Strategaeth Rheoli Risg ar waith. Mae'r Bwrdd yn adolygu'r Strategaeth yn flynyddol ac yn penderfynu ar fanylion y strwythur mewn perthynas â rheoli risg.
- Nifer o is-bwyllgorau i'r Bwrdd, yn cynnwys Grŵp Rheoli Risg sy'n adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Grŵp Iechyd a Diogelwch sy'n cynnwys cynrychiolydd o bob Cyfarwyddiaeth ac sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Grŵp Rheoli Risg. Mae yna hefyd Grŵp Cyfathrebu a Chynnwys Staff sy'n gweithio ynglŷn â'r Safon Iechyd Gorfforaethol.
- Cyflawni asesiadau risg amrywiol, yn cynnwys ynglŷn ag Iechyd a Diogelwch a chyfarpar sgrin arddangos.
- Cyflawni Arolwg Profiad Cleifion a sefydlu Cynllun Gweithredu o ganlyniad i'r canfyddiadau.
- Sesiynau hyfforddi ar gyfer staff yn cynnwys ynglŷn ag Iechyd a Diogelwch a Tân.

S14.3. Yn ychwanegol, mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn sicrhau cydymffurfio â gofynion Iechyd a Diogelwch drwy'r polisi Iechyd a Diogelwch gweithredol a thrwy adroddiadau i'r Bwrdd ar Iechyd a Diogelwch. Mae hyn yn cynnwys ynghylch cydymffurfio â Chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch - HSG65 yn

flynyddol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cydymffurfio â Safonau Rheoli Risg Cymru yn y maes hwn.

S14.4. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru'n cytuno ag asesiad y Bwrdd Iechyd Lleol ei fod yn **Ddatblygol** ar draws holl Lefelau'r safon ac mae'n eglur ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn gweithio'n galed i gynnwys y proffesiynau sy'n contractwyr.

Safon 15

Mae cyrff gofal iechyd, gan gydnabod y gwahanol anghenion o ran iaith a chyfathrebu, yn sicrhau bod cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr:

- a. yn gallu rhoi adborth ar eu profiadau ac ar ansawdd y gwasanaethau;*
- b. yn cael sicrwydd bod eu cwynion yn cael sylw prydlon a thrylwyr yn unol â'r weithdrefn;*
- c. yn cael gwybodaeth am gymorth eiriolaeth ar gyfer cwynion a ddarperir gan Gyngorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru;*
- ch. yn cael sicrwydd bod y cyrff yn ymateb i unrhyw bryderon ac yn gwneud newidiadau priodol er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.*

S15.1. Asesodd y Bwrdd ei hun ei fod yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol, Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S15.2. Roedd y Bwrdd yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Polisi Cwyno a Gweithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion. Mae Cronfa Risg Cymru ar hyn o bryd yn datblygu Polisi Hawliadau a Gweithdrefn Hawliadau ar gyfer y Bwrdd.
- Taflen a phosteri Canmol a Chwyno sy'n cynnwys enwau, cyfeiriadau a rhifau ffôn cyswllt pe byddai rhywun am wneud cwyn.
- Sesiynau Hyfforddi, yn cynnwys rhai rheolaidd a arweinir gan y Rheolwr Cwynion o'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes, sy'n galluogi holl aelodau'r staff i ymdrin â chwynion mewn modd adeiladol a gwella'r gwasanaethau o ganlyniad. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys staff mewn safleoedd gofal sylfaenol. Anogir practisau hefyd i ddilyn Gweithdrefn Gwyno'r GIG a cheisio

datrys y gŵyn yn lleol. Yn ogystal, mae holl aelodau'r staff hefyd wedi derbyn Hyfforddiant Cydraddoldeb.

- Adroddiad Cwynion Blynyddol.
- Penodwyd dau aelod nad ydynt yn swyddogion fel Hyrwyddwyr Cwynion i'r Bwrdd.
- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol yn derbyn adroddiadau rheolaidd ynghylch rheoli cwynion.
- Gweithgor Cwynion ac adroddiadau chwarterol o'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes.
- Polisi Cofnodi Digwyddiadau Clinigol.

S15.3. Roedd y Bwrdd Iechyd Lleol yn gallu dangos bod ganddo brosesau a gweithdrefnau cadarn ar gyfer ymdrin â chwynion ynghyd â hyfforddiant a chymorth ar gyfer staff. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth yn wan mewn perthynas â sut y cesglir pryderon eraill neu adborth ehangach oddi wrth gleifion a gweithredu ar hynny, a hefyd sut mae'r Bwrdd yn gallu bod yn sicr ei fod yn hysbysu'r holl gleifion o'u dewisiadau, er enghraifft, y cleifion hynny sydd ag anawsterau cyfathrebu neu wahaniaethau ieithyddol.

S15.4. Barnwn fod y Bwrdd Iechyd Lleol yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol a Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, ond yn **Ymatebol** yn unig ar Lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 16

Mae gan gyrff gofal iechyd systemau ar waith:

- a. i nodi pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y gellir eu cofnodi, a dysgu ganddynt;*
- b. i adrodd digwyddiadau i System Genedlaethol Adrodd a Dysgu'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) a chyrrff eraill, yn unol â'r canllawiau presennol;*
- c. i ddangos eu bod wedi gwella eu harferion ar sail gwybodaeth a phrofiadau lleol a chenedlaethol a rennir sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddigwyddiadau;*
- ch. i sicrhau bod pobl yn gweithredu yn ôl hysbysiadau a rhybuddion diogelwch, a negeseuon eraill yn ymwneud â diogelwch y cleifion, o fewn y terfynau amser.*

S16.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ddatblygol** ar draws y Lefel Gorfforaethol a Lefel Profiad y Defnyddiwr ac yn **Ymarferol** ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S16.2. Roedd y Bwrdd yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Y Polisi Digwyddiadau Clinigol.
- Mae'r Rheolwr Llywodraethu Clinigol yn darparu sesiynau datblygu yn ymwneud yn benodol â diogelwch cleifion, cofnodi digwyddiadau clinigol, ymchwilio a thueddiadau yn y maes.
- Drwy ei Strwythur Llywodraethu Clinigol a threfniadau ynglŷn â hynny, gan gynnwys caniatáu i gontractwyr annibynnol gyflwyno ffurflenni digwyddiadau clinigol drwy'r Bwrdd Iechyd Lleol, a fydd yn hysbysu Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion are eu rhan er mwyn cynorthwyo practisau sy'n nodi bod yna gyfyngiadau amser arnynt.
- Datblygu Pecyn Archwilio Digwyddiadau Mawr ar gyfer Meddygon Teulu a Deintyddion i gynorthwyo gydag archwilio mewn perthynas â digwyddiadau mawr, gan anelu at sefydlu ffordd gyson o weithio yn y maes.
- Trefniadau Rheoli Risg.
- Cymorth a hyfforddiant ar gyfer staff, gan gynnwys ynglŷn ag ymchwilio i ddigwyddiadau a chodi ymwybyddiaeth ynghylch y gwahanol bolisïau a gweithdrefnau y mae angen cydymffurfio â hwy.
- Archwilio.

S16.3. Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi cyflawni gwaith i sicrhau bod yna systemau, polisïau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu ac mae'n cymryd camau i roi'r rhain ar waith ledled y sefydliad er mwyn sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu cofnodi.

Cadarnhaodd yr ymweliad safle fod staff yn ymwybodol o'r prosesau hyn a hefyd o'r sianeli y mae gofyn i broffesiynau sy'n gontractwyr wneud adrodd drwyddynt. Nid yw'n eglur oddi wrth ymateb y Bwrdd sut mae'n monitro'r digwyddiadau yr adroddir amdanynt nac ychwaith a yw'r systemau a sefydlwyd yn effeithiol. Fodd bynnag, nodwyd bod y Bwrdd ar hyn o bryd yn adolygu'r trefniadau ynglŷn â'r broses fonitro.

S16.4. Oherwydd nad oes tystiolaeth ddigonol i ddangos bod yna welliant sylweddol parhaus ledled y sefydliad barnwn fod y Bwrdd Iechyd Lleol yn **Ddatblygol** ar draws y tair lefel.

Safon 17

Bydd cyrff gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed wrth gynnal eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ddelio â chyrff eraill.

S17.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ymarferol** ar y Lefel Gorfforaethol ac yn **Ddatblygol** ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S17.2. Mae'r Bwrdd yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau ynghylch amddiffyn plant ac ynghylch oedolion agored i niwed drwy'r canlynol:

- Arweinwyr dynodedig yn cynnwys: Y Cyfarwyddwr Nyrsio sydd hefyd yn Arweinydd Amddiffyn Plant. Aelod o'r Bwrdd sy'n Eiriolwr dros Blant. Nyrs Diogelu'r Cyhoedd i sicrhau cydymffurfio gyda'r Canllawiau Cenedlaethol.
- Polisiâu amrywiol megis Amddiffyn Plant, Plant sy'n Derbyn Gofal, Chwythu'r Chwiban, Cyn-droseddwyr a Phobl gyda Chofnodion Troseddol, a Recriwtio a Dethol.
- Adroddiadau chwarterol i'r Bwrdd ynghylch Gweithgareddau Amddiffyn Plant.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda Fforwm De-ddwyrain Cymru a Fforwm De Cymru.
- Hyfforddiant, yn cynnwys ynglŷn ag Amddiffyn Plant ac ynghylch oedolion agored i niwed mewn cartrefi gofal mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol, a chyflwyno pecyn e-ddysgu ar gyfer Meddygon Teulu ynghylch oedolion agored i niwed.

S17.3. Yn ychwanegol, mae'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi dangos ei ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth ar nifer o lefelau yn cynnwys:

- Cynrychiolaeth ar fforymau lleol a fforymau De-ddwyrain Cymru, er enghraifft, Fforwm Amddiffyn Oedolion Merthyr Tudful, Fforwm Amddiffyn Oedolion De-ddwyrain Cymru a Fforwm Amddiffyn Plant De-ddwyrain Cymru.
- Cynhelir cyfarfodydd chwarterol o'r Bwrdd Iechyd Lleol, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru ac Ymddiriedolaeth Gogledd Morgannwg gyda'r bwriad o gydweithio i gydgyssylltu gweithgareddau sefydliadau iechyd. Mae aelodau'n rhannu tystiolaeth ynghylch yr arferion gorau ac yn monitro'r elfennau sy'n ymwneud ag iechyd mewn cynlluniau gweithredu sy'n deillio o arolygiadau o achosion difrifol.

S17.4. Cynrychiolir y Bwrdd hefyd ar yr amrywiol bwyllgorau lleol yn cynnwys y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, y Bwrdd Diogelu Plant Lleol a'r Fforwm Cam-drin Domestig.

S17.5. Cytunwn ag asesiad y Bwrdd Iechyd Lleol ei fod yn **Ymarferol** ar y Lefel Gorfforaethol ac yn **Ddatblygol** ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 18

Mae cyrff gofal iechyd wedi cynllunio a pharatoi ymateb trefnus i ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau arferol, ac wedi ymarfer yr ymateb lle bo'n ofynnol.

S18.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ymarferol** ar y Lefel Gorfforaethol, Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S18.2. Mae'r Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Cynllun Digwyddiad Mawr.
- Polisi Ffliw Pandemig.
- Holiadur Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gynllunio at Argyfwng.
- Cynllun Busnes wrth Gefn.
- Defnyddio ymarferion pen bwrdd, rhai rhithwir a rhai amser real mewn perthynas ag Ymarfer Gwiber ac Ymarfer Helygen y Gaeaf (ymarfer amlasiantaeth ynghylch fflw pandemig) ac Ymarfer Cyfaint Mwyaf a oedd yn

ymdrin â symud nifer mawr o bobl o Fryste i Gaerdydd. Mae'r Bwrdd Gweithredol, uwch reolwyr a nifer o aelodau o'r staff yn y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol cysylltiedig yn cymryd rhan yn y digwyddiadau hyn. Mae ymarferion o'r fath hefyd yn cynnwys pobl o'r holl sefydliadau sy'n bartneriaid i ni, hynny yw, yr Awdurdod Lleol, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân a holl adrannau'r sector gwirfoddol.

- Tu Hwnt i Ddigwyddiad Mawr – Fframwaith ar gyfer Cynllunio.

S18.3. Mae'n amlwg bod gan y Bwrdd Iechyd Lleol bolisiau a gweithdrefnau cyfredol sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd yng ngoleuni cynnal yr ymarferion uchod a bod y Bwrdd yn derbyn gwybodaeth gyflawn ynghylch hynny, ac felly cytunwn fod y Bwrdd yn **Ymarferol** ar y Lefel Gorfforaethol. Parthed Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, ni chyflwynwyd unrhyw wybodaeth na thystiolaeth i ddangos unrhyw welliant sylweddol parhaus felly barnwn fod y Bwrdd yn **Ddatblygol** ar y Lefel honno. Ar Lefel Profiad y Defnyddiwr, ni allwn ond cadarnhau bod y Bwrdd yn **Ymatebol**, gan na atebwyd y cwestiwn yn gyflawn ac na ddarparwyd unrhyw fanylion ynghylch gwneud newidiadau i'r broses o ganlyniad i ymarfer neu ddigwyddiad neu sefyllfa o argyfwng gwirioneddol.

Safon 19

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod cyn lleied o beryglon â phosibl yn gysylltiedig â chaffael a defnyddio dyfeisiadau meddygol;*
- b. bod dyfeisiadau meddygol aml dro'n cael eu diheintio'n briodol cyn eu defnyddio, a bod y peryglon sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau a'r prosesau diheintio yn cael eu rheoli'n effeithiol;*
- c. bod materion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch meddyginiaethau'n cael eu rheoli;*
- ch. bod y gwaith o atal, trin a thrafod, cludo a gwaredu gwastraff a'r gwaith o'i gadw ar wahân yn cael ei reoli fel bod cyn lleied â phosibl o beryglon i iechyd a diogelwch y staff, y cleifion a'r cyhoedd ac i'r amgylchedd.*

S19.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ymarferol** ar y Lefel Gorfforaethol ac yn **Ddatblygol** ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S19.2. Roedd y Bwrdd Iechyd Lleol yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Gweithio gyda phartneriaid yng Ngrŵp Llywio Strategaeth Teleofal Merthyr Tudful i ddarparu cyfeiriad at y dyfodol ac i gomisiynu offer.
- Llinellau atebolrwydd drwy'r Cyfarwyddwr Nyrsio, yr Arweinwyr Clinigol a'r Cyfarwyddwr Cynllunio.
- Polisiâu, cynlluniau a strwythurau megis: Manyleb Gwasanaeth Offer Cymunedol Integredig, Contract Safonol ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Fframwaith Canlyniadau Ansawdd, Cynllun Corfforaethol, Cynllun a Strategaeth Presgripsiynu, Rheoliadau Gwastraff Peryglus, Canllaw Arfer Gorau Sbirometreg.
- Adroddiadau Chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith ac Adroddiadau Cynnydd Blyneddol i'r Bwrdd.
- Monitro ac adrodd drwy'r Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol. Mae'n ofynnol i bractisau meddygon teulu ddarparu tystiolaeth bod offer a dyfeisiau meddygol yn cael eu monitro a'u calibro'n rheolaidd. Cynhwysir hyn o fewn rheoliadau'r Fframwaith Canlyniadau Ansawdd.

S19.3. Cytunwyd ar sawl is-bwyllgor a'u sefydlu i gynghori'r Bwrdd ar Reoli Meddyginiaethau. Mae'r rhain yn cynnwys Llywodraethu Clinigol, y Grŵp Cynghori ynghylch Presgripsiynu, Pwyllgor Gweithredol Meddyginiaethau a Therapiwteg (Gogledd Bro Taf) a Phwyllgor Meddyginiaethau a Therapiwteg Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg.

S19.4 O'n hadolygiad o'r dystiolaeth mae'n eglur bod y Bwrdd yn cydnabod beth yw'r prif faterion a'i fod wedi nodi dewisiadau a'u blaenoriaethu, ond ni ellid casglu o'r ymatebion a roddwyd bod yna arfer da ar draws yr holl feysydd. Yn ogystal, prin oedd y dystiolaeth i ddangos bod y Bwrdd yn monitro dyfeisiau ac offer meddygol yn effeithiol. Barnwn felly fod y Bwrdd Iechyd Lleol yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol ac yn **Ymatebol** ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Eto, ar Lefel Profiad y Defnyddiwr, ni ellid casglu o ymateb y Bwrdd, nac o'r dystiolaeth, beth yn union yw'r broses o adrodd ynghylch camgymeriadau gyda dyfeisiau a chyfarpar meddygol a meddyginiaethau nac ym mha ffordd y mae hyn yn cael ei

fonitro. Hefyd, ni ddarparodd y Bwrdd unrhyw dystiolaeth o adrodd ynghylch digwyddiadau yn ystod y 12 mis diwethaf ac o ganlyniad barnwn mai ond yn **Ymwybodol** y mae'r Bwrdd ar y Lefel hon.

Safon 20

Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati i wella'r gofal ar gyfer cleifion a boddhad y staff yn barhaus, gan ddefnyddio arferion gorau wrth reoli adnoddau dynol.

S20.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol a Lefel Profiad y Defnyddiwr ac yn **Ymarferol** ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S20.2. Roedd y Bwrdd yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Y Cynllun Gwasanaeth a Chomisiynu Blynyddol a'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi'r prif amcanion a'r canlyniadau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Ar y ddwy ddogfen hyn y mae pob aelod o'r staff yn seilio eu hamcanion a'u cynlluniau datblygu personol. Mae cynnwys cynlluniau datblygu personol pob aelod unigol o'r staff yn cael ei fwydo i mewn i gynllun hyfforddi blynyddol fel rhan o'r Strategaeth Datblygu Sefydliadol a Hyfforddiant ar gyfer y Bwrdd.
- Darperir adroddiadau perfformiad chwarterol i'r Bwrdd ynghylch cyflawni targedau.
- Mae pawb o'r staff yn gweithio tuag at greu Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau unigol er mwyn datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth i'w galluogi i gyflenwi'r gwasanaethau maent yn eu darparu.
- Mae gan y Cyfarwyddwr Cyswllt Gwasanaethau Corfforaethol amcanion wedi'u cytuno gyda'r Prif Weithredwr, sy'n cynnwys darparu Gwasanaeth Adnoddau Dynol effeithiol. Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn mynychu cyfarfodydd rhanbarthol rheolaidd i drafod materion Adnoddau Dynol ac mae yna adolygiad blynyddol. Mae'r Bwrdd yn derbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol oddi wrth y Ganolfan Gwasanaethau Busnes ac adroddir ynghylch

y rhain yn flynyddol wrth y Bwrdd ac fe'u cynhwysir hefyd yn y Cerdyn Sgorio Cytbwys.

- Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu Polisiâu Adnoddau Dynol Cymru Gyfan, a ddatblygwyd gan y Fforwm Byrddau Iechyd Lleol, ac sy'n cynnwys manylion perthnasol ynghylch y ddeddfwriaeth a'r arfer gorau. Dilynir proses o asesu effaith ynglŷn â'r holl bolisiau a gweithdrefnau, un ai ar lefel genedlaethol neu lefel leol, a chynhwysir hyn yng nghynlluniau gweithredu'r cynlluniau cydraddoldeb perthnasol.
- Arolygon Staff.

S20.3. Cytunwn fod y Bwrdd Iechyd Lleol yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol a Lefel Profiad y Defnyddiwr ond oherwydd diffyg tystiolaeth i ddangos arfarnu a meincodi yn arwain at welliant parhaus, barnwn mai yn **Ddatblygol** yn unig y mae'r Bwrdd ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

Safon 21

Mae cyrff gofal iechyd:

- a. yn cynnal yr holl gamau gwirio gofynnol cyn cyflogi ac yn sicrhau bod yr holl staff cymwys, boed yn gyflogedig neu ar gontract, yn cael eu cofrestru â'r cyrff perthnasol;*
- b. yn gofyn i'r holl staff proffesiynol cyflogedig gadw at eu codau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol;*
- c. yn mynd i'r afael os bydd angen â grwpiau lleiafrifol a dangynrychiolir.*

S21.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ymarferol** ar y Lefel Gorfforaethol, Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S21.2. Dangosodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Gweithredu canllawiau Cylchlythyr Iechyd Cymru ar Recriwtio Mwy Diogel ar gyfer Cyflogeion y GIG a gweithio gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes i sicrhau bod yna brosesau wedi'u sefydlu i gydymffurfio â'r gofynion.
- Polisiâu, gweithdrefnau a systemau i sicrhau cyflawni'r gwiriadau angenrheidiol ar gyfer staff yn cynnwys y Rhestr Gyfeirio Adnoddau Dynol, Gweithdrefnau Cynefino a Pholisi Gweithredol Byrddau Iechyd Lleol Cymru Gyfan.

- Contractau cyflogi yn cynnwys y gofyniad i staff gydymffurfio â Chod Ymarfer eu corff proffesiynol eu hunain a gofyniad i'r holl Reolwyr ac i Aelodau'r Bwrdd lofnodi'r Cod Ymarfer.
- Monitro cofrestru proffesiynol drwy'r sianeli priodol.
- Polisiâu a Gweithdrefnau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cynnwys Cynllun Cydraddoldeb Hiliol, Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl a Chynllun Iaith Gymraeg. Mae gan y Bwrdd Hyrwyddwyr ar gyfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

S21.3. Er ei bod yn eglur bod yna bolisiâu, gweithdrefnau a systemau wedi'u sefydlu mewn perthynas â'r safon hon, nid oedd mor amlwg sut roedd y Bwrdd yn ymarferol yn monitro neu brofi'r systemau hyn ar gyfer cydymffurfio â gofynion gwelliant parhaus. Barnwn felly fod y Bwrdd Iechyd Lleol yn **Ddatblygol** ar y tair Lefel ar gyfer y Safon hon.

Safon 22

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff:

- a. yn cael eu recriwtio'n briodol, eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a bod ganddynt y cymwysterau priodol ar gyfer y gwaith;*
- b. yn cymryd rhan mewn rhaglenni cynefino a rhaglenni hyfforddi gorfodol;*
- c. yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus.*

S22.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ymarferol** ar draws y Lefel Gorfforaethol, Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S22.2. Roedd y Bwrdd yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Y drefn gosod amcanion sy'n golygu sefydlu Cynlluniau Datblygu Personol ar gyfer yr holl gyflogeion ac Aelodau'r Bwrdd yn flynyddol. Adolygir y rhain yn rheolaidd drwy'r flwyddyn.
- Mae gan bawb o'r staff Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau i sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth i gyflawni eu swyddogaethau.

- Strategaeth Datblygiad Galwedigaethol a Hyfforddi sy'n nodi gofynion hyfforddiant y staff.
- Rhestr ar gyfer aelodau'r Bwrdd a'r staff yn nodi pa hyfforddiant sy'n orfodol. Cyflwynir hyn wedyn drwy gyfrwng Sesiynau Datblygu'r Bwrdd a Chyfarfodydd a Sesiynau Dysgu i'r Staff.
- Cyfarfodydd un wrth un rheolaidd rhwng aelodau o'r staff a'u rheolwyr llinell.
- Proses Gynefino Leol a Chorfforaethol ar gyfer staff.
- Hyfforddi a chymorth yn cynnwys: rhaglen fentora, hyfforddi gan ddarparwyr mewnol ac allanol, cyfarwyddo, ariannu cyrsiau ar gyfer Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch a Graddau, polisi absenoldeb astudio, polisi a gweithdrefn gallu, polisi rheoli perfformiad.

S22.3. Roedd yn eglur oddi wrth y grŵp ffocws staff bod yna fuddsoddi da ym maes datblygiad proffesiynol parhaus. Fodd bynnag, ni allem gasglu o'r dystiolaeth a gyflwynwyd bod yna welliant parhaus digonol ar draws y sefydliad, ac felly rydym yn barnu mai yn **Ddatblygol** y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol ar y Lefel Gorfforaethol a Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Ar Lefel Profiad y Defnyddiwr hefyd, barnwn fod y Bwrdd yn **Ddatblygol**. Ni chyflwynwyd y dystiolaeth i gyfiawnhau ac i ategu'r datganiadau. Er enghraifft, ni chyflwynwyd unrhyw adroddiadau neu gofnodion gwirioneddol i ddangos bod gan yr holl staff gynlluniau datblygu personol nac i ddangos faint sydd wedi manteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

Safon 23

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff yn cael cymorth gan:

- a. brosesau sy'n caniatáu iddynt fynegi pryderon ynghylch unrhyw agwedd ar y broses ddarparu, y triniaethau neu'r broses reoli, a hynny'n gyfrinachol a heb beryglu eu safle;*
- b. rhaglenni datblygu sefydliadol a rhaglenni datblygu personol sy'n cydnabod cyfraniad a gwerth y staff.*

S32.1 Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ymarferol** ar y Lefel Gorfforaethol a Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ddatblygol** ar Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S23.2 Roedd y Bwrdd yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Amrywiol Bolisïau and Gweithdrefnau megis Chwythu'r Chwiban, Pryderon Staff, Cydraddoldeb i Bobl Anabl, Atal Twyll, Urddas yn y Gweithle, Bod yn Agored a Chwynion.
- Grwpiau mewnol, megis y Grŵp Cyfathrebu a Chynnwys Staff a Gwobr y Cadeirydd a / neu Wobr y Prif Weithredwr.

S23.3 Er ei bod yn ddigon eglur bod yna nifer o bolisïau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu, nid oedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos gwelliant parhaus gwirioneddol a barnwn mai yn **Ddatblygol** y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol ar y Lefel Gorfforaethol. Eto, ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr, ni chyflwynwyd dystiolaeth i ategu'r datganiadau a ddarparwyd ac ni allwn ond casglu mai yn **Ymatebol** y mae'r Bwrdd ar y lefelau hyn. Er enghraifft, byddai cofnodion y Grŵp Cyfathrebu a Chynnwys Staff i ddangos pa bynciau a drafodwyd ac enghreifftiau o bosteri a gyflwynwyd ar gyfer Gwobr y Cadeirydd wedi bod yn wybodaeth ategol ddefnyddiol.

Safon 24

Mae cyrff gofal iechyd yn cydweithio â phartneriaid gofal cymdeithasol ac eraill i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth drwy:

- fod â gweithlu sydd â'r gymysgedd briodol o sgiliau ac sy'n adlewyrchu'r gymuned yn gyffredinol;*
- sicrhau bod y gwasanaethau'n gwella'n barhaus drwy ddatblygu ffyrdd gwell o weithio.*

S24.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ymarferol** ar y Lefel Gorfforaethol ac yn **Ddatblygol** ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S24.2. Dangosodd y Bwrdd ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy Strategaeth a Chynllun Gweithredu'r Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, nifer o drefniadau partneriaeth a gweithio ar y cyd a phrotocolau a gweithdrefnau ar y cyd ar gyfer gwaith amlasiantaethol.

S24.3. Er bod y dystiolaeth yn dangos bod gweithio mewn partneriaeth yn digwydd, megis Cynllunio ar y Cyd ynglŷn ag Iechyd Meddwl, a bod yna hefyd fentrau ar y

cyd, er enghraifft, ynglŷn â Phlant sy'n Derbyn Gofal, Rhyddhau Cleifion o Ysbytai ac Oedi wrth Drosglwyddo Gofal, cyfyngedig oedd y wybodaeth i ddangos pa drefniadau cynllunio gweithlu ar y cyd oedd wedi'u sefydlu neu sut yr oedd y Bwrdd yn ystyried gwneud hynny yn y dyfodol.

S24.4. Ni chredwn fod y Bwrdd Iechyd Lleol wedi ateb y cwestiynau a nodwyd yn y safon hon yn gyflawn ac rydym felly'n barnu bod y Bwrdd yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol ac yn **Ymatebol** ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 25

Mae cyrff gofal iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella'r gofal ar gyfer cleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.

S25.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol, Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S25.2. Dangosodd y Bwrdd ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Strategaeth Technoleg a Rheoli Gwybodaeth.
- Derbyn gwybodaeth Cytundeb Tymor Hir oddi wrth Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg, sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch Cynllun yr Ail Gynnig a'r Cynllun Datblygu Lleol. Caiff y wybodaeth hon ei chysoni â gwybodaeth a ddarperir drwy'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes a hefyd drwy ddata Cronfa Ddata Electronig Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru.
- Mae'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes yn darparu hyfforddiant i staff ynghylch defnyddio'r systemau gwybodaeth.

S25.3. Er bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn cyflawni gwaith yn y maes hwn, ni allem adolygu'r dystiolaeth gasglu bod y Bwrdd yn monitro ac yn arfarnu effeithiolrwydd ei systemau Technoleg a Rheoli Gwybodaeth yn rheolaidd na darganfod yn eglur sut y defnyddir y wybodaeth a gasglwyd i ddylanwadu ar wasanaethau. Yn ogystal, cyflwynwyd rhy ychydig o fanylion ynghylch yr hyfforddiant a ddarperir i staff ar

draws y proffesiynau ac o wybodaeth ynghylch y broses gwirio cysondeb, ac nid oedd dim tystiolaeth i ategu hynny. Rydym felly'n barnu bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol ac yn **Ymatebol** ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 26

Mae gan gyrff gofal iechyd brosesau rheoli cofnodion effeithiol yn eu lle i sicrhau:

- a. *bod y sefydliad, o'r foment y caiff cofnod ei greu nes iddo gael ei ddileu, yn diweddarau'r wybodaeth i ateb y diben gwreiddiol, ac yn dileu'r wybodaeth yn briodol pan na fo'i hangen mwyach arnynt;*
- b. *bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol*

S26.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ymarferol** ar draws y Lefel Corfforaethol, Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S26.2. Dangosodd y Bwrdd fod ganddo brosesau rheoli cofnodion effeithiol drwy'r canlynol:

- Amrywiol bolisiâu a gweithdrefnau, yn cynnwys: Strategaeth Rheoli Cofnodion, Canllaw Arfer Da, Gweithdrefn ar gyfer Rheoli Cofnodion ac Archifo Cofnodion, Canllaw Arfer Da ar gyfer Defnyddio Gwybodaeth Cleifion, Polisi Diogelu Gwybodaeth, Rhyddid Gwybodaeth, y Ddeddf Diogelu Data, Canllaw i'r System Ddosbarthu, Canllawiau ynghylch Confensiynau Enwi a Metadata.
- Darparu Adroddiad Blynyddol ar Reoli Cofnodion i'r Pwyllgor Archwilio a darparu amrywiol Adroddiadau Perfformiad Allweddol i'r Grŵp Rheoli Risg a'r Uwch Dîm Rheoli, sy'n caniatáu i'r Bwrdd Iechyd Lleol fonitro'i broses rheoli cofnodion.
- Grŵp Rheoli Cofnodion.
- Hyfforddiant ar gyfer Staff. Darperir hyfforddiant mewn rheoli cofnodion mewn sesiynau cynefino ar gyfer yr holl aelodau newydd o'r staff. Yn ogystal, yn ystod 2006-2007, diweddarwyd yr Hyfforddiant Rheoli Cofnodion a'i ddarparu ar gyfer yr holl staff.

S26.3. Hefyd, yn ystod 2006-2007 cytunodd Uwch Dîm Rheoli'r Bwrdd y dylid sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rheoli Cofnodion. Un o brif dasgau'r grŵp hwn oedd

cynnal archwiliad cyflawn ledled y sefydliad. Roedd hynny'n cynnwys cofnodion a etifeddwyd, yr holl fathau o gofnodion a gedwid gan y Bwrdd yn ôl enw, math, disgrifiad a lleoliad a'r holl gofnodion a gafodd eu harchifo. Roedd y grŵp yn cydnabod pwysigrwydd monitro cofnodion o fewn meysydd gwahanol ac enwebwyd Hyrwyddwr Rheoli Cofnodion o bob un o adrannau'r Bwrdd i fonitro cofnodion o fewn eu maes ac i hysbysu'r Grŵp ynghylch unrhyw broblemau neu ddiffyg cydymffurfio gyda'r strategaethau/polisiâu er mwyn iddo weithredu yn eu cylch. Yn ogystal, yn ystod 2006-2007 ychwanegodd y Bwrdd gofrestr o gofnodion a oedd ar goll i'w strategaeth a chofnodir pob ffeil sydd ar goll, gan nodi pa gamau sydd i'w cymryd. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu trefn fonitro fwy effeithiol.

S26.4. Cytunwn ag asesiad y Bwrdd Iechyd Lleol ei fod yn **Ymarferol** ar bob un o'r tair Lefel.

Safon 27

Mae trefniadau llywodraethu ar sail arferion da yn eu lle sydd:

- a. yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu corfforaethol a chlinigol cadarn;*
- b. yn sicrhau proses gadarn ar gyfer rheolaeth ariannol, ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;*
- c. yn mynd ati i helpu'r holl staff i hybu gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r egwyddor o fod yn agored ac i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;*
- ch. yn mynd ati'n systematig i gynnal asesiadau risg a rheoli risg;*
- d. yn cael eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau iechyd a rhwydweithiau clinigol.*

S27.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ymarferol** ar y Lefel Gorfforaethol ac yn **Ddatblygol** ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S27.2. Dangosodd y Bwrdd ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Pwyllgor Llywodraethu Clinigol a Phwyllgor Archwilio sy'n adrodd wrth y Bwrdd. Mae Cadeiryddion y ddau Bwyllgor hefyd yn aelodau o'r Bwrdd Iechyd Lleol llawn.

- Cyfres wedi'i chymeradwyo o gyfarwyddiadau ariannol sefydlog, rheolau sefydlog a chynllun dirprwyo, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Darparu Adroddiadau Perfformiad Ariannol ar gyfer pob Cyfarfod o'r Bwrdd. Rhaid ymdrin â risgiau ariannol ym mhob adroddiad i'r Bwrdd.
- Cyfarfodydd rheolaidd o'r Pwyllgor Cyswllt Cyllidebol gyda Deiliaid Cyllidebau.
- Darparu Datganiadau Misol a Blynyddol i Lywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n adlewyrchu'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn a'r sefyllfa ragamcanol.
- Cyflwyniadau Ariannol ar bynciau allweddol a chyfarfodydd hyfforddi staff misol.
- Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol gadarn.
- Asesiad Rheoli Risg Cymru.

S27.3. Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol hefyd wedi gweithio ledled y gymuned iechyd i ddarparu gwybodaeth ynghylch "Llywodraethu Iechyd", sef pecyn cymorth arfer da ar gyfer y sector gwirfoddol, yn ogystal â Phecyn Cymorth Adnoddau Archwilio Digwyddiadau Mawr ar gyfer Meddygon Teulu, y mae'r Bwrdd hefyd wedi'i rannu gyda sefydliadau eraill.

S27.4. Barnwn fod y Bwrdd Iechyd Lleol yn **Ddatblygol** ar bob un o dair Lefel y safon hon.

Safon 28

Mae cyrff gofal iechyd:

- a. yn sicrhau bod gwaith pob tîm a phob gwasanaeth clinigol yn dilyn egwyddorion llywodraethu clinigol;*
- b. yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol;*
- c. yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr.*

S28.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun fel ei fod yn **Ymarferol** ar y Lefel Gorfforaethol, Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S28.2. Dangosodd y Bwrdd ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Sefydlu amrywiol bolisiâu yn cynnwys Strategaeth a Chynllun Datblygu Llywodraethu Clinigol, Polisi Archwilio Clinigol, Polisi Llywodraethu Ymchwil, Strategaeth Rheoli Risg, Polisi Digwyddiadau Clinigol, Polisi Cwynion, a Chynllun Corfforaethol.
- Arweinwyr Llywodraethu Clinigol o fewn y proffesiynau sy'n contractio ac ar gyfer y Cyfarwyddiaethau o fewn y Bwrdd Iechyd Lleol.
- Monitro gan y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol, y Pwyllgor Cynllunio a Chomisiynu a'r Pwyllgor Archwilio, gydag adroddiadau chwarterol i'r Bwrdd. Cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Swyddfa Ranbarthol.
- Cerdyn Sgorio Cytbwys a Chofrestr Risg.

S28.3. Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cefnogi ymwneud staff yn y broses o lywodraethu clinigol drwy ddulliau gweithio myfyriol a'r broses o gofnodi digwyddiadau clinigol. Yn ogystal, anogir Practisau Meddygon Teulu i ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Practisau Meddygon Teulu i amlygu ac i gefnogi arferion da. Ym meysydd archwilio clinigol a datblygiad proffesiynol parhaus, mae staff wedi cwblhau Archwiliad Sbirometreg mewn Gofal Sylfaenol sydd wedi arwain at ddatblygu canllaw i'r arfer gorau. Fel enghraifft o staff yn defnyddio egwyddorion llywodraethu clinigol i wella'r gofal ar gyfer cleifion, mae arweinydd llywodraethu clinigol y Bwrdd Iechyd Lleol yn arbenigwr ym maes hanesion cleifion ac yn gallu hyfforddi staff i gyflawni'r agwedd hon ar ymwneud â chleifion.

S28.4. Cytunwn ag asesiad y Bwrdd Iechyd Lleol ei fod yn **Ymarferol** ar y Lefel Gorfforaethol ond barnwn mai yn **Ddatblygol** y mae ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

4.4 Iechyd y Cyhoedd

Safon 29

Mae cyrff gofal iechyd yn hybu, amddiffyn a gwella iechyd y gymuned sy'n cael ei gwasanaethu ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd:

- a. *drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles;*
- b. *drwy sicrhau bod eu polisiau a'u harferion yn seiliedig ar asesiadau o angen a chynghor cadarn ar iechyd y cyhoedd.*

S29.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun ei fod yn **Ymarferol** ar y Lefel Gorfforaethol, yn **Ddatblygol** ar y Lefel Weithredol ac yn **Ymatebol** ar Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S29.2. Roedd y Bwrdd yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy'r canlynol:

- Ei Strategaeth, Cynllun Gweithredu a Phartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar gyfer 2005–08.
- Gweithredu mewn partneriaeth mewn perthynas â'r canllawiau newydd ar gyfer y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar gyfer 2008-2011. Mae Dogfen Cychwyn Prosiect wedi'i chynhyrchu ac mae sawl is-grŵp wedi'u sefydlu i ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles sydd i fod i gychwyn gweithredu ar 1 Ebrill 2008. Mae'r is-grwpiau yn cynnwys Grŵp Cyfathrebu, Grŵp Asesu Anghenion a Grŵp Ymgynghori.
- Gellir cael mynediad at gyngor a gwasanaethau mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd drwy Gyfarwyddwr Lleol Iechyd y Cyhoedd a'i thîm o'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol. Mae Cyfarwyddwr Lleol Iechyd y Cyhoedd yn aelod o Grŵp Craidd amlasiantaethol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar gyfer y fwrdeistref sirol ac mae'n cydgysylltu datblygu Asesiad Anghenion Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles i ategu'r Strategaeth newydd ar gyfer 2008-2011 i Ferthyr Tudful. Mae Cyfarwyddwr Lleol Iechyd y Cyhoedd hefyd yn cynghori'r Bwrdd Iechyd Lleol ar ddatblygu llwybrau gofal canser gan gychwyn gydag wroleg ac amseroedd aros i gleifion gyda chanser.

S29.3. Mae'n eglur o'r ymateb a'r dystiolaeth ategol bod y Bwrdd Iechyd Lleol yn ymrwymedig i weithio mewn ffordd amlasiantaethol ac yn gweithio'n bendant tuag at sicrhau bod yna systemau effeithiol wedi'u sefydlu fel y gellir gweithredu strategaethau yn y dyfodol yn unol ag anghenion y bobl mae yn eu gwasanaethu, fel y cawsant eu hasesu.

S29.4. Cytunwn ag asesiad y Bwrdd Iechyd Lleol ei fod yn **Ymarferol** ar y Lefel Gorfforaethol, yn **Ddatblygol** ar y Lefel Ymarferol ac yn **Ymatebol** ar Lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 30

Mae cyrff gofal iechyd:

- a. *yn rheoli rhaglenni systematig ar gyfer atal clefydon a hybu iechyd sy'n cynnwys staff, ac sy'n bodloni gofynion y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, y cynlluniau cenedlaethol a'r blaenoriaethau o ran hybu iechyd ac atal clefydon;*
- b. *yn ystyried yr holl bolisiâu cyfredol ac arfaethedig a'r wybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd wrth ddatblygu rhaglenni iechyd y cyhoedd, rhaglenni hybu iechyd a gwasanaethau atal, ac wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau.*

S30.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun fel yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol ac yn **Ymarferol** ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S30.2. Dangosodd y Bwrdd ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon drwy eu gwaith gyda'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol sy'n cynorthwyo partneriaid a rhanddeiliaid i gydweithio i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol iechyd gwael, i hybu buddsoddi mewn iechyd ac i leihau anghydraddoldebau. Yn ychwanegol at y Cynllun Gwaith Cenedlaethol, mae gan y Bwrdd Gynllun Gwaith Lleol ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol sy'n unol â nodau ac amcanion strategol ac sy'n cysylltu'n briodol â Chynllun Gwasanaeth a Chomisiynu Blynyddol y Bwrdd. Caiff cynnydd gyda'r gwaith hwn ei fonitro'n chwarterol. Mae yna hefyd amryw o flaenoriaethau cenedlaethol sy'n cysylltu â Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles y Bwrdd, megis gweithgarwch corfforol, maeth a thybaco, ac mae strategaethau'n cael eu datblygu ar gyfer y meysydd hyn.

S30.3. Yn ogystal, mae yna nifer o raglenni ar waith mewn perthynas â hybu iechyd, sy'n cymryd i ystyriaeth anghenion y grwpiau o gleientiaid, er enghraifft:

- Y Cynllun Cerdyn Condom gyda'r nod o gynyddu'r defnydd o atal cenhedlu (condomau) a chynghor cyffredinol ynghylch iechyd rhywiol ymhlith pobl ifanc a grwpiau ieuenctid gan arwain at leihad mewn beichiogrwydd anfwriadol a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.
- Hybu iechyd mewn Gweithleoedd Bach, gyda'r nod o alluogi pobl sy'n byw ac yn gweithio ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i ddeall y ffactorau ynglŷn â ffordd o fyw sy'n cael effaith ar glefyd coronaidd y galon, gan ddarparu sgiliau a gwybodaeth yng nghyd-destun y gweithle drwy weithio gyda Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh) ar ddatblygu polisi iechyd; datblygu cynllun ymarfer corff yn y swyddfa "Symudiadau Swyddfa"; darparu hyfforddiant ar gyfer gweithleoedd – i gyflogwyr a chyflogaion; gweithredu fel cyswllt ar gyfer rhwydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng gweithleoedd; cynorthwyo gweithleoedd gyda chynnal ymgyrchoedd byw'n iach a chynorthwyo gweithleoedd gyda chynnal Dyddiau Byw'n Iach ar gyfer eu staff.

S30.4. Cytunwn ag asesiad y Bwrdd Iechyd Lleol ei fod yn **Ymarferol** ar Lefel Profiad y Defnyddiwr ac yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol ond hefyd barnwn mai ond yn **Datblygu** y mae'r Bwrdd ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol gan na allwn o adolygu'r dystiolaeth ddarganfod pa arfarnu a meincnodi a wnaed er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

Safon 31

Mae cyrff gofal iechyd:

- a. yn rhoi cynlluniau ar waith i ddarparu adnoddau ar gyfer amddiffyn y cyhoedd os bydd achosion sylweddol o glefyd heintus yn digwydd neu argyfwng iechyd arall;*
- b. yn nodi ac yn mynd i'r afael â phroblemau difrifol ym maes iechyd y cyhoedd ac anghydraddolebau iechyd, gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn arwain;*
- c. yn gweithredu rhaglenni effeithiol i wella iechyd a lleihau anghydraddolebau iechyd; ac yn amddiffyn eu poblogaethau rhag peryglon a nodwyd eisoes a pheryglon newydd i iechyd;*
- ch. yn annog ac yn helpu unigolion i gydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb i edrych ar ôl eu hiechyd a'u lles eu hunain.*

S31.1. Gweler yr ymateb i Safon 18.

Safon 32

Mae cyrff gofal iechyd yn cyflawni'r Safon Iechyd Gorfforaethol, sef y nod ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd yn y gweithle, ac yn symud i lefel uwch ar ôl cael ailasesiad.

S32.1. Asesodd y Bwrdd Iechyd Lleol ei hun fel yn **Ddatblygol** ar y Lefel Gorfforaethol ac yn **Ymarferol** ar Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr.

S32.2. Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi ennill Gwobr Efydd y Safon Iechyd Gorfforaethol ac wedi dangos ei ymrwymiad i weithio tuag at berfformio'n well fyth drwy wneud y canlynol:

- Sefydlu Grŵp Mewnol i sicrhau cyflawni'r camau gweithredu sy'n deillio o asesiad y Safon Iechyd Gorfforaethol;
- Enwebu aelod o'r Bwrdd nad yw'n swyddog fel Hyrwyddwr ar gyfer y Safon Iechyd Gorfforaethol;
- Sicrhau mwy o gyfranogiad gan y staff drwy'r Grŵp Cyfathrebu a Chynnwys Staff.

S32.3. Penderfynwyd yng nghyfarfodydd Gwirio Cysondeb Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru y byddai'r sgorio ar gyfer y safon hon yn adlewyrchu'n uniongyrchol y gwobrau y byddai sefydliadau'n eu derbyn oddi wrth y Safon Iechyd Gorfforaethol. Byddai'r Gwobrau Aur ac Arian yn gydradd â lefel aeddfedwydd Ymarferol, a'r Wobr Efydd yn gydradd â bod yn Ddatblygol. Gan i'r Bwrdd Iechyd Lleol ennill Gwobr Efydd y Safon Iechyd Gorfforaethol, rydym wedi'i asesu fel ei fod yn **Ddatblygol** ar bob Lefel o'r safon hon.

Fe welir crynodeb o'r lefelau aeddfedwydd ar gyfer pob un o'r 32 safon fel y'u haseswyd gan Fwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful drwy ei hunanasesu a chan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn dilyn profi ac arfarnu yn Atodiad 2.

5. Y Camau Nesaf

5.1. Mae'n ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful gyhoeddi Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd erbyn 30 Tachwedd 2007. Cytunir ar y cynllun hwn gyda Swyddfa Ranbarthol Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, a fydd yn monitro ei roi ar waith fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad a sefydlwyd ar gyfer GIG Cymru. Bydd ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd Lleol.

5.2. Dros y misoedd nesaf, bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i fireinio a gwella'r dull asesu ar gyfer y dyfodol ac i alinio proses hunanasesu'r Safonau Gofal Iechyd gyda'r cylch ariannol blyneddol.

5.3. Cyhoeddir adroddiad Cymru Gyfan ym mis Tachwedd 2007 a bydd hwn yn cyfuno'r canfyddiadau o adroddiadau unigol i mewn i drosolwg o'r sefyllfa ledled Cymru. Bydd hyn yn amlygu'r prif themâu a'r meysydd risg a amlygwyd gan broses hunanasesu'r Safonau Gofal Iechyd.

Diffiniadau o Lefel Aeddfedrwydd

	Ymwybodol	Ymatebol	Datblygol	Ymarferol	Arweiniol
Corfforaethol	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion i fynd i'r afael â hwy ond ni allant ddangos penderfyniadau/ camau i fynd i'r afael â hwy.	Mae'r Bwrdd yn cydnabod y materion allweddol ac wedi nodi dewisiadau sydd wedi'u blaenoriaethu, er nad oes tystiolaeth o gyfeiriad strategol.	Mae'r Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion allweddol trwy ddatblygu cynlluniau strategol sydd â thystiolaeth o arferion da ledled y sefydliad.	Mae'r agenda strategol yn cael ei datblygu a'i monitro gan y Bwrdd gyda thystiolaeth sylweddol o welliant parhaus ledled y sefydliad.	Mae'r Bwrdd yn arwain yr agenda strategol trwy roi arferion arloesol ar waith a rennir ledled y sefydliad a thu hwnt gydag eraill, gan alluogi cynaliadwyedd hirdymor i gael ei wireddu.
Gweithredol	Mae ymwybyddiaeth o'r materion i fynd i'r afael â hwy, ond ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau i fynd i'r afael â hwy.	Mae ymwybyddiaeth o'r materion allweddol i fynd i'r afael â hwy a nodwyd amrywiaeth o ddewisiadau er mwyn mynd i'r afael â hwy.	Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion allweddol gyda thystiolaeth o weithredu ymarferol ledled y sefydliad.	Mae cynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda'n cael eu rhoi ar waith ledled y sefydliad sy'n mynd i'r afael â'r materion allweddol gyda thystiolaeth o werthuso a meincnodi sy'n arwain at welliant parhaus.	Mae tystiolaeth o arferion arloesol, a rennir ledled y sefydliad a thu hwnt gydag eraill. Maent yn datblygu eu dulliau ymhellach i sicrhau gwelliant cynaliadwy hirdymor.
Profiad y Defnyddiwr	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gyffredinol wael ac ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Nid yw profiad yr unigolyn/unigolion yn dda yn gyffredinol er y datblygwyd dulliau o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gwella mewn sawl maes, er nad yw hyn yn gyson ledled y sefydliad hyd yn hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gyffredinol dda ym mhob maes.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn rhagorol yn gyffredinol a gall y gwasanaeth ddangos tystiolaeth eglur o arferion da, y gellir eu rhannu.

Atodiad 2

Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd yn ôl Safon

Allwedd

A	Arweiniol
Y	Ymarferol
D	Datblygol
Yt	Ymatebol
Yb	Ymwybodol

Safon 1

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	Yt

Safon 2

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 3

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	Y	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Y	↓	Yt
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	Yt

Safon 4

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	Yt
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	Yt

Safon 5

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	Yt
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	Yb

Safon 6

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	Yt
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	Yb

Safon 7

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	Y	↓	D

Safon 8

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Corfforaethol	Y	↔	Y
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 9

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Corfforaethol	Yb	↔	Yb
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Yb	↔	Yb
Profiad y Defnyddiwr	Yb	↔	Yb

Safon 10

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	Yb
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	Yt

Safon 11

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	Yt	↔	Yt

Safon 12

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	Yt
Profiad y Defnyddiwr	Yt	↔	Yt

Safon 13

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Y	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	Yt

Safon 14

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 15

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	Yt

Safon 16

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Y	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 17

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	Y	↔	Y
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 18

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	Y	↔	Y
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Y	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Y	↓	Yt

Safon 19

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	Y	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	Yt
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	Yb

Safon 20

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Y	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 21

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	Y	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Y	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Y	↓	D

Safon 22

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	Y	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Y	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Y	↓	D

Safon 23

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	Y	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Y	↓	Yt
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	Yt

Safon 24

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	Y	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	Yt
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	Yt

Safon 25

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	Yt
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	Yt

Safon 26

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	Y	↔	Y
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Y	↔	Y
Profiad y Defnyddiwr	Y	↔	Y

Safon 27

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	Y	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 28

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	Y	↔	Y
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Y	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Y	↓	D

Safon 29

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Corfforaethol	Y	↔	Y
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	Yt	↔	Yt

Safon 30

	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Y	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Y	↔	Y

Safon 31



	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Corfforaethol	Ddim yn berthnasol		
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Ddim yn berthnasol		
Profiad y Defnyddiwr	Ddim yn berthnasol		

Safon 32


	Sgôr Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/ i lawr)	Asesiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Y	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Y	↓	D

Atodiad 3


Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl y Lefel Gorfforaethol, Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad y Defnyddiwr




**Sgoriau Aeddfedrwydd Lefel Canlyniadau
Gweithredol/Clinigol**



Sgoriau Aeddfedrwydd Lefel Profiad y Defnyddiwr



Cytuno/Anghytuno â Sgôr y Bwrdd Iechyd Lleol



Esboniad o'r Prif Dermau

archwilio clinigol – arfarnu a mesur gan weithwyr proffesiynol iechyd i ganfod i ba raddau maent yn cydymffurfio â'r safonau a osodwyd ar gyfer eu gwasanaeth.

Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion - awdurdod iechyd arbennig a grëwyd ym mis Gorffennaf 2001 i gydgyssylltu ymdrechion ledled y wlad i gofnodi camgymeriadau a phroblemau sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion, ac yn bwysicach fyth, i ddysgu oddi wrthynt.

Bwrdd yr Ymddiriedolaeth - grŵp o bobl sy'n gyfrifol yn ôl y gyfraith am benderfyniadau mawr ynghylch polisi a strategaeth o fewn pob Ymddiriedolaeth GIG. Fel arfer, mae'r Bwrdd yn cynnwys cadeirydd lleyg, pum aelod lleyg, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Gweithredol yr Ymddiriedolaeth.

Byrddau Iechyd Lleol - cyrff statudol sy'n gyfrifol am roi strategaethau ar waith i wella iechyd y boblogaeth leol, sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol a sicrhau gwasanaethau gofal eilaidd.

canlyniad clinigol – yr effaith a gaiff triniaeth ar iechyd neu les unigolyn.

Cerdyn Sgorio Cytbwys – trefn reoli sy'n cynnig model i alluogi sefydliad i grisialu ei weledigaeth a'i strategaeth a gweithredu arnynt. Mae'n hybu gwelliant parhaus ym mherfformiad y sefydliad.

Cronfa Risg Cymru - cynllun hunan-sicrhau ar y cyd ar gyfer holl gyrff iechyd Cymru. Mae hefyd yn gwarchod diogelwch cleifion a staff drwy hybu a chefnogi perfformiad rheoli ac asesu risg effeithiol drwy fesur yn erbyn safonau gosodedig.

Cyngor Iechyd Cymuned - cyrff hybu, eirioli a pholisi ym maes iechyd, sydd heb fod am elw ac wedi'u gwreiddio yn y gymuned, Sefydlwyd Cyngorau Iechyd Cymuned ym 1992 er mwyn cryfhau cyfraniad cymunedau tuag at liwio polisi lleol a gwladwriaethol lle mae hynny'n effeithio ar fynediad at ofal iechyd ac ansawdd y gofal hwnnw. Mae'r cyngorau'n cynrychioli budd y cyhoedd yn y GIG ac mae'n ofyniad statudol i ymgynghori â hwy ynghylch newidiadau ym maes iechyd yn eu hardaloedd.

Cynllun Oes – mae'n amlinellu gweledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yng Nghymru gyda strategaeth deng mlynedd ar gyfer cyflawni hynny. Mae'r strategaeth yn cynnwys tri fframwaith strategol, pob un yn parhau am oddeutu tair blynedd: Fframwaith 1 (2005-2008) Ailgyllunio Gofal Iechyd; Fframwaith 2 (2008-2011) Cyflwyno Safonau Uwch, a Fframwaith 3 (2011-2014) Gwasanaethau Iechyd o'r Radd Flaenaf.

Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd – strategaeth i sicrhau y gwrandewir ar farn a sylwadau cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a'r cyhoedd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Datganiad Rheolaeth Fewnol – datganiad ynghylch trefniadau cyffredinol corff GIG ar gyfer bod yn sicr bod y prif risgiau o fewn y corff yn cael eu rheoli'n effeithiol.

diogelu data - y gofyn i gyrff cyhoeddus ac eraill weithredu mewn modd cyfrifol wrth reoli data personol. Cynhwysir y cyfrifoldebau hynny yn Neddf Diogelu Data 1984 a Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990, a fwriadwyd i ddiogelu data a gedwir ynghylch unigolion.

Y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol – canllawiau ar gyfer y gwasanaeth iechyd ynghylch sut i reoli a thrin mathau penodol o glefydau ac afiechyd.

Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan – mae'n cynghori'r Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch rheoli meddyginiaethau a phresgripsiynu yn strategol.

Gwarcheidwad Caldicott - uwch glinigydd ym mhob sefydliad GIG, sy'n gyfrifol am roi agweddau ar adroddiad Caldicott, a oedd yn adolygu diogelu a defnyddio gwybodaeth am gleifion, ar waith.

Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru – mae'n darparu ystod gyflawn o wasanaethau iechyd cyhoeddus, er mwyn: gwella iechyd a lles pobl Cymru a lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd; diogelu rhag clefydau a bygythiadau i iechyd sy'n bodoli'n barod, rhai newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, a chyfrannu tuag at wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Ilwybr gofal – cyfres benodol o gamau mewn triniaeth a gofal wedi'i chynllunio i ddiwallu anghenion neilltuol pob claf.

Ilywodraethu clinigol – fframwaith sy'n golygu bod sefydliadau'r GIG yn atebol am wella ansawdd eu gwasanaethau'n barhaus ac am gadw safonau uchel o ran gofal.

Rhaglen Arweiniad Clinigol Coleg Brenhinol y Nyrsys – rhaglen sy'n caniatáu amser estynedig i nyrsys i arsylwi ar ofal a darparu gwasanaethau ac i gyfweld cleifion am y modd y darperir gofal. Y bwriad yw galluogi nyrsys i ddatblygu a mireinio'u galluoedd i arwain, gwella sgiliau timau a sefydliadau a chanolbwyntio ar anghenion cleifion.

rheoli haint – cyfres o weithdrefnau i atal lledaenu haint a fydd yn cynnwys, er enghraifft, golchi dwylo, defnyddio cyfarpar wedi'i ddiheintio ac ati.

rhwydweithiau clinigol – grŵp o wasanaethau sy'n cydweithio ar draws ffiniau sefydliadau er mwyn darparu gwell gofal i gleifion.

Safonau Gofal Iechyd – fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynorthwyo'r GIG a chyrrff sy'n bartneriaid i ddarparu gwasanaethau effeithiol, prydlon ac o ansawdd da ym mhob maes o ofal iechyd.

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol – awdurdod iechyd arbennig sy'n cynnig cyngor i'r GIG ac i gleifion ar feddyginiaethau, cyfarpar meddygol a gweithdrefnau clinigol.

Y Swyddfa Cofnodion Troseddol – asiantaeth weithredol a sefydlwyd i gynorthwyo chyrrff i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel drwy ddarparu mynediad ehangach at wybodaeth ynghylch cofnodion troseddol. Mae'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cynorthwyo cyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i adnabod ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer rhai mathau o waith, yn enwedig gwaith yn cynnwys cyswllt â phlant neu aelodau eraill o'r gymdeithas a allai fod yn agored i niwed.

Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) - cyrrff hunanlywodraethol o fewn y GIG, sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r ymddiriedolaethau'n cyflogi ystod gyflawn o weithwyr proffesiynol gofal iechyd, yn cynnwys meddygon, nyrsys, deietegwyr, ffisiotherapyddion ac ati. Mae ymddiriedolaethau aciwt yn darparu gwasanaethau meddygol a llawfeddygol, fel arfer mewn ysbytai. Mae ymddiriedolaethau cymunedol yn darparu gwasanaethau iechyd lleol, fel arfer yn y gymuned, megis nyrsys ardal, ciropodyddion ac ati. Mae ymddiriedolaethau cyfun yn darparu gwasanaethau ymddiriedolaethau aciwt a chymunedol o dan un drefn reoli.